WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# Asesiad Strwythuredig 2017 – **Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf**

Blwyddyn archwilio: 2017

Dyddiad cyhoeddi: Mawrth 2018

Cyfeirnod y ddogfen: 304A2017-18

Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o waith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, yn cynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Roedd y tîm a gyflawnodd y gwaith yn cynnwys Sara Utley, Matthew Coe, Urvisha Perez o dan gyfarwyddyd Dave Thomas.

# Cynnwys

Mae’r Bwrdd Iechyd yn parhau i weithredu trefniadau llywodraethu, cynllunio a rheoli ariannol effeithiol, ond mae cyfleoedd i wella megis drwy atgyfnerthu’r ffordd y mae’n rheoli newid ac yn gweithredu’r strategaeth ddigidol.


Adroddiad cryno

Cyflwyniad a chefndir 4

Canfyddiadau allweddol 5

Argymhellion 8

Adroddiad manwl

Mae’r Bwrdd Iechyd yn parhau i weithredu trefniadau llywodraethu, cynllunio a rheoli ariannol effeithiol, ond mae cyfleoedd i wella megis drwy atgyfnerthu’r ffordd y mae’n rheoli newid ac yn gweithredu’r strategaeth ddigidol 10

Mae’r Bwrdd Iechyd yn cyflawni ei ddyletswydd ariannol statudol i fantoli’r gyllideb dros gylch o dair blynedd ond mae’r arbedion anghylchol yn cynyddu, ac er bod y ffordd y mae’n cynllunio arbedion yn effeithiol mae cyfle i ddatblygu cynlluniau mwy trawsnewidiol a gwella’r gwaith rheoli prosiect a dadansoddi data 10

Mae’r Bwrdd Iechyd wedi parhau i ddangos trefniadau cynllunio a llywodraethu strategol effeithiol, ond mae cyfle i fireinio adroddiadau’r cynllun tymor canolig integredig ymhellach a chefnogi aelodau annibynnol newydd 22

Mae angen parhau i gymryd camau i fynd i’r afael â’r heriau sy’n gysylltiedig â’r gweithlu, gweithredu’r strategaeth iechyd ddigidol newydd a pharhau i ddatblygu trefniadau rheoli newid corfforaethol 30

Atodiadau

Atodiad 1 – Ymateb rheolwyr y Bwrdd Iechyd i argymhellion asesiad strwythuredig 2017 33

# Adroddiad cryno

## Cyflwyniad a chefndir

1 Mae’r gwaith a wnawn fel rhan o’r asesiad strwythuredig yn helpu i lywio barn yr Archwilydd Cyffredinol ar drefniadau Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf (y Bwrdd Iechyd) i sicrhau defnydd effeithlon, effeithiol a darbodus o’i adnoddau. Canfu ein gwaith yn 2016 fod y Bwrdd Iechyd wedi parhau i atgyfnerthu trefniadau llywodraethu corfforaethol a rheoli ariannol, ac wedi gwneud cynnydd da o ran mynd i’r afael â chanfyddiadau blynyddoedd blaenorol. Erys heriau o hyd o ran mantoli’r gyllideb, gwella adroddiadau a gwaith rheoli prosiect, a mynd i’r afael â threfniadau llywodraethu gwybodaeth yn gyflymach.

2 Fel mewn blynyddoedd blaenorol, mae’r gwaith a wnaed gennym fel rhan o’r asesiad strwythuredig ar gyfer 2017 wedi adolygu agweddau ar drefniadau llywodraethu corfforaethol a rheoli ariannol y Bwrdd Iechyd ac, yn benodol, y cynnydd a wnaed i ymdrin ag argymhellion y flwyddyn flaenorol. Er mwyn cydnabod y pwysau ariannol cynyddol a wynebir gan lawer o gyrff y GIG a’r her o gyflawni’r dyletswyddau i fantoli’r gyllideb a amlinellwyd yn Neddf Cyllid GIG Cymru (Cymru) 2014, rydym hefyd wedi adolygu trefniadau’r Bwrdd Iechyd i gynllunio a chyflawni arbedion ariannol.

3 Rydym hefyd wedi defnyddio gwaith asesiad strwythuredig eleni i gasglu tystiolaeth i ategu sylwadau ar gyfer Cymru gyfan. Nodir sut mae cyrff perthnasol yn y sector cyhoeddus yn gweithio tuag at fodloni gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015. Cyflwynir adroddiad ar wahân yn cynnwys y sylwadau hyn ddechrau 2018.

4 Mae’r canfyddiadau a nodir yn yr adroddiad hwn yn seiliedig ar gyfweliadau, arsylwadau yn ystod cyfarfodydd y bwrdd, cyfarfodydd pwyllgorau a chyfarfodydd grwpiau rheoli, ynghyd ag adolygiadau o ddata perfformiad a chyllid a dogfennau perthnasol.

5 Yn 2016, cynhaliwyd adolygiad o bortffolios gweithredol ac atebolrwyddau rheoli er mwyn ailalinio arweinyddiaeth ac atebolrwydd y gweithlu. Parhaodd eleni gyda rheolwyr cyfarwyddiaethau ac is-strwythurau yn mynd drwy’r un broses. Mae gwaith yn mynd rhagddo ar hyn o bryd i roi’r fframwaith rheoli perfformiad a ddatblygwyd yn ddiweddar ar waith.

6 Mae Llywodraeth Cymru wrthi’n ymgynghori ar newid arfaethedig i ffiniau’r Bwrdd Iechyd. Byddai’r newid i’w ffiniau yn golygu y byddai gwasanaethau iechyd ym Mhen-y-bont ar Ogwr o bosibl yn cael eu darparu gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf yn y dyfodol. Darperir y gwasanaethau hyn gan Abertawe Bro Morgannwg ar hyn o bryd. Yn ystod y cyfnod ymgynghori hwn mae’r Bwrdd Iechyd yn cael sgyrsiau cynnar â Bwrdd Iechyd Abertawe Bro Morgannwg ynglŷn â’r goblygiadau i’r ddau Fwrdd Iechyd.

# Canfyddiadau allweddol

7 Ein casgliad cyffredinol o'r gwaith asesu strwythuredig yn 2017 yw bod y Bwrdd Iechyd yn parhau i weithredu llywodraethu, cynllunio a rheoli ariannol effeithiol, ond mae cyfleoedd i wella megis drwy atgyfnerthu'r ffordd y mae'n rheoli newid ac yn gweithredu'r strategaeth ddigidol. Ceir crynodeb o'r rhesymau dros ddod i'r casgliad hwn isod.

## Cynllunio a rheoli ariannol

8 Wrth adolygu trefniadau cynllunio a rheoli ariannol y Bwrdd Iechyd canfuom fod y Bwrdd Iechyd yn cyflawni ei ddyletswydd ariannol statudol i fantoli'r gyllideb dros gylch o dair blynedd ond bod yr arbedion anghylchol yn cynyddu, ac er bod y ffordd y mae'n cynllunio arbedion yn effeithiol, bod cyfle i ddatblygu cynlluniau mwy trawsnewidiol a gwella cymorth rheoli prosiect a dadansoddi data.

### Perfformiad ariannol

9 Cyflawnodd y Bwrdd Iechyd ei ddyletswydd ariannol statudol i fantoli'r gyllideb dros y cyfnod treigl o dair blynedd a ddaeth i ben yn 2016-17 ac mae hefyd yn rhagweld y bydd yn mantoli'r gyllideb ar ddiwedd y cyfnod a ddaw i ben yn 2017-18. Yn 2016-17, cyflawnodd y Bwrdd Iechyd 96% o'i darged arbedion cyffredinol ond gwelwyd cryn amrywio yn y graddau roedd cyfarwyddiaethau yn perfformio yn erbyn eu targedau arbedion dirprwyedig unigol, gyda'r mwyafrif o'r cyfarwyddiaethau yn methu â chyflawni eu targed. Dros y tair blynedd ddiwethaf, mae cyfran yr arbedion cylchol wedi gostwng ac o ganlyniad mae lefelau'r arbedion anghylchol wedi cynyddu.

### Cynllunio a chyflawni arbedion ariannol

10 Mae gan y Bwrdd Iechyd system effeithiol o nodi arbedion, wedi'i llywio gan ddadansoddiad da o'r cyfleoedd sydd ar gael. Mae gan bob cyfarwyddiaeth ei tharged arbedion ei hun, a nodwyd drwy ymarferion meincnodi a dadansoddiadau perthnasol eraill. Hefyd, ym mhob rhan o'r Bwrdd Iechyd, mae gwaith cynllunio arbedion wedi'i gysylltu'n benodol â chylch cynllunio'r Cynllun Tymor Canolig Integredig. Fodd bynnag, arbedion byrdymor yw'r rhan fwyaf ohonynt, ac er bod gan y Bwrdd Iechyd rai prosiectau trawsnewid gwasanaethau, bydd angen datblygu mwy ohonynt er mwyn cyflawni'r lefelau o arbedion cylchol sydd eu hangen a sicrhau bod gwasanaethau yn parhau'n gynaliadwy.

11 Mae gan y Bwrdd Iechyd alluogwyr a systemau cymorth ar waith er mwyn helpu i gynllunio a chyflawni cynlluniau arbedion, ond mae cyfle i atgyfnerthu'r trefniadau hyn ymhellach, yn enwedig mewn perthynas â chymorth i reoli rhaglenni a phrosiectau, ac adnoddau a sgiliau dadansoddi data.

### Monitro arbedion ariannol

12 Canfuom y caiff arbedion eu monitro a'u cofnodi ar bob lefel yn y sefydliad o'r Bwrdd i dimau cyfarwyddiaeth unigol. Mae lefel dda o graffu ar berfformiad o ran arbedion, a hynny ar lefel y Bwrdd ac ar lefel pwyllgorau, ac mae trefniadau monitro a chraffu ar lefel weithredol ac ar lefel cyfarwyddiaeth wedi cael eu hatgyfnerthu drwy gyflwyno mesurau uwchgyfeirio newydd a Bwrdd Effeithlonrwydd, Cynhyrchiant a Gwerth ar lefel weithredol.

### Cynnydd o ran ymdrin ag argymhellion yr asesiad strwythuredig blaenorol ar gynllunio a rheoli ariannol

13 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud cynnydd da o ran mynd i'r afael â'r argymhellion a wnaed gennym yn 2016. Mae wedi atgyfnerthu trefniadau monitro ac uwchgyfeirio mewn perthynas â chynlluniau arbedion ym mhob cyfarwyddiaeth. Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd wedi sefydlu'r Bwrdd Effeithlonrwydd, Cynhyrchiant a Gwerth i fonitro cyfarwyddiaethau lle nad yw targedau arbedion yn cael eu cyflawni. Gellid gwneud rhagor o waith i gytuno ar ddull cyson o bennu cylch gorchwyl cyfarfodydd busnes clinigol fel y'i hargymhellwyd gan yr archwilwyr mewnol.

## Llywodraethu a sicrwydd

14 Wrth adolygu trefniadau llywodraethu corfforaethol a sicrwydd y Bwrdd Iechyd canfuom ei fod wedi parhau i ddangos trefniadau cynllunio strategol a llywodraethu effeithiol, ond mae cyfleoedd i ailfireinio adroddiadau'r Cynllun Tymor Canolig Integredig ymhellach, yn ogystal â helpu'r aelodau annibynnol newydd i ymgymryd â gwaith craffu effeithiol a pharhau i wella cydymffurfiaeth â hyfforddiant llywodraethu gwybodaeth. Ceir crynodeb o'r canfyddiadau sy'n sail i'r casgliadau hyn isod.

### Cynllunio strategol a strwythur sefydliadol

15 Cafodd y Bwrdd Iechyd gymeradwyaeth Llywodraeth Cymru am ei Gynllun Tymor Canolig Integredig unwaith eto ac mae ganddo ddull cadarn a sefydledig o gynllunio'n strategol. Mae adroddiadau cynnydd y Cynllun Tymor Canolig Integredig wedi parhau i ddatblygu ond gellid gwneud rhagor o waith i fynegi cerrig milltir yn well o fewn y cynllun a monitro cynnydd tuag at eu cyflawni. Mae gwaith i ddiweddaru'r strwythur sefydliadol wedi'i gwblhau a dylai hyn sicrhau bod y Bwrdd Iechyd mewn gwell sefyllfa i ymateb i heriau yn y dyfodol. Fodd bynnag, nodwyd bod swydd y Cyfarwyddwr Cyllid yn dal i fod wedi'i llenwi ar sail interim ar adeg ein hadolygiad.

### Effeithiolrwydd y bwrdd a sicrwydd

16 Mae trefniadau gweinyddu ac ymddygiad y Bwrdd yn parhau i fod yn effeithiol ac mae'r Bwrdd Iechyd wedi cymryd camau cadarnhaol i reoli'r risgiau sy'n gysylltiedig â throsiant ymhlith aelodau annibynnol o'r bwrdd. Rydym wedi parhau i weld lefelau da o graffu a herio ar lefel y Bwrdd ac ar lefel pwyllgorau. Fodd bynnag, gellid gwella'r ffordd y caiff yr agenda ei blaenoriaethu yn y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Risg. Mae angen i bapurau roi mwy o ffocws ar sicrwydd. Mae cynnydd da wedi'i wneud yn erbyn yr argymhellion a wnaed gennym yn 2016 o ran datblygu blaengynlluniau gwaith yn ogystal â sicrhau bod templedi pwyllgor priodol yn cael eu defnyddio.

### Rheoli risg

17 Mae gan y Bwrdd Iechyd ddull aeddfed o reoli risg. Cyflwynir adroddiadau rheolaidd ar gofrestr risg gorfforaethol y Bwrdd Iechyd i'r Bwrdd ac i'r Pwyllgor Archwilio. Mae perchenogaeth glir o risgiau gyda phob risg wedi'i dyrannu i bwyllgor er mwyn sicrhau goruchwyliaeth a chraffu effeithiol.

### Llywodraethu gwybodaeth

18 Mae trefniadau llywodraethu gwybodaeth wedi parhau'n gadarn gyda'r Bwrdd Iechyd yn paratoi ar gyfer y rheoliadau diogelu data cyffredinol newydd. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi penodi ei Swyddog Diogelu Data, sy'n gam cadarnhaol. Eleni, bu gwelliannau hefyd i wella cydymffurfiaeth â hyfforddiant llywodraethu gwybodaeth a bydd y ffocws hwn yn parhau yn ystod y flwyddyn sydd i ddod.

### Rheoli Perfformiad

19 Mae trefniadau monitro perfformiad y Bwrdd Iechyd yn gadarnhaol o ran monitro a chyflwyno adroddiadau i'r Bwrdd ac i'r pwyllgor. Ond mae'r Archwilwyr Mewnol wedi nodi rhai problemau gyda llunio'r adroddiadau ar berfformiad y bydd angen mynd i'r afael â hwy. Mae datblygiad y fframwaith rheoli perfformiad yn gadarnhaol, ac mae'n wrthi'n cael ei roi ar waith. Byddwn yn gwneud gwaith dilynol ar hyn y flwyddyn nesaf fel rhan o'n gwaith archwilio parhaus.

## Ffactorau eraill sy'n galluogi defnydd effeithlon, effeithiol a darbodus o adnoddau

20 Mae gan y Bwrdd Iechyd drefniadau da ar gyfer rheoli newid, ond mae cyfle i'w gwneud yn fwy gweladwy. Erys rhai heriau sylweddol o hyd o ran y gweithlu o fewn y Bwrdd Iechyd ac mae angen rhoi'r strategaeth ddigidol newydd ar waith er mwyn sicrhau'r gwelliannau technoleg gwybodaeth sydd eu hangen. Ceir crynodeb o'r canfyddiadau sy'n sail i'r casgliadau hyn isod.

### Newid a Rheoli Newid

21 Mae’r cymorth i reoli newid a roddir gan y swyddfa rheoli rhaglenni yn gadarnhaol. Mae cynllun clir ar waith i ddiffinio gwaith y swyddfa rheoli rhaglenni, er mai cyfyngedig yw adnoddau’r swyddfa. O dan y trefniadau blaenorol, bu pryder bod y swyddfa rheoli rhaglenni yn rhy bell o’r cyfarwyddiaethau. Mewn ymateb i hyn, mae cymorth y swyddfa rheoli rhaglenni wedi cael ei ymgorffori yn y model cymorth busnes o fewn cyfarwyddiaethau. Ymddengys bod hwn yn newid cadarnhaol ac y dylai wella adborth a chydweithio rhwng y cyfarwyddiaethau a’r swyddfa rheoli rhaglenni.

### Y gweithlu

22 Fel gyda’r Byrddau Iechyd eraill yng Nghymru, mae Cwm Taf yn wynebu pwysau o ran y gweithlu. Mae gwariant ar staff asiantaeth meddygol yn gymharol uchel ac mae’r Bwrdd Iechyd yn canolbwyntio ar hyn yn ogystal â datblygu modelau darpariaeth amgen. Mae lefelau salwch hefyd yn gymharol uchel, ond mae’r Bwrdd Iechyd yn targedu hyn ac mae wedi llwyddo i’w gostwng. Mae’r Bwrdd Iechyd hefyd yn canolbwyntio ar ddatblygu gallu arwain y staff i’w galluogi i ymateb i heriau yn y dyfodol.

### TGCh a’r defnydd o dechnoleg

23 Yn ystod y flwyddyn, mae’r Bwrdd Iechyd wedi gwneud newidiadau i’w gyfrifoldebau arweinyddiaeth gweithredol am TGCh. Y Cyfarwyddwr Gweithredol dros Ofal Sylfaenol, Cymuned ac Iechyd Meddwl sy’n gyfrifol bellach a bydd y cyfrifoldeb hwn yn cael ei drosglwyddo gydag ef pan gaiff ei secondio i rôl y Prif Swyddog Gweithredu. Caiff y trefniant hwn ei adolygu unwaith bod y Bwrdd Iechyd wedi penderfynu ar swydd wag y Cyfarwyddwr Cyllid. Ym mis Rhagfyr 2015, nodwyd gennym nad oedd gan y Bwrdd Iechyd Strategaeth TGCh gytûn. Mae wedi mynd i’r afael â hyn erbyn hyn ond bydd angen datblygu cynlluniau er mwyn rhoi’r strategaeth hon ar waith. Bydd angen dyrannu adnoddau ar gyfer y strategaeth hon hefyd er mwyn iddi allu cael ei chyflawni’n effeithiol, a gwireddu’r manteision a amlinellir ynddi.

# Argymhellion

24 Nodir yr argymhellion sy’n deillio o’n gwaith ar yr asesiad strwythuredig yn 2017 yn Arddangosyn 1. Bydd hefyd angen i’r Bwrdd Iechyd barhau i ganolbwyntio ar weithredu ar unrhyw argymhellion blaenorol nas cwblhawyd eto.

25 Caiff ymateb rheolwyr y Bwrdd Iechyd yn nodi sut mae’n bwriadu ymateb i’r argymhellion hyn ei gynnwys yn Atodiad 1 unwaith y bydd wedi’i gwblhau ac wedi’i ystyried gan bwyllgor perthnasol y Bwrdd.

Arddangosyn 1: Argymhellion 2017

**Argymhellion 2017**

**Cynllunio a chyflawni arbedion ariannol**

A1 Mae Adnodd Asesu’r Effaith ar Ansawdd y Bwrdd Iechyd, y mae’n rhaid ei gwblhau ar gyfer cynlluniau gwerth dros £100,000, yn gofyn ar hyn o bryd i gyfarwyddiaethau ystyried effaith eu cynllunio arbedion ar y canlynol: diogelwch cleifion, effeithiolrwydd clinigol, profiad cleifion a phrofiad staff. Dylai’r Bwrdd Iechyd ymestyn y templed i gwmpasu effaith cynlluniau arbedion mawr ar gyfarwyddiaethau a gwasanaethau eraill, cyrff iechyd eraill a phartneriaid a sefydliadau allanol hefyd.

A2 Canfuom nad yw proses adolygu gan gymheiriaid Cynllun Tymor Canolig Integredig y Bwrdd Iechyd yn nodi cyfleoedd posibl i weithio ar draws cyfarwyddiaethau na dyblygu’n llawn. Dylai’r Bwrdd Iechyd adolygu ac atgyfnerthu’r broses er mwyn hwyluso cynlluniau arbedion ar y cyd a nodi cynlluniau tebyg neu ddyblyg.

A3 Canfuom y gall fod cymhlethdodau o ran gweithio ar draws cyfarwyddiaethau, yn enwedig os nad yw cyfarwyddiaethau yn cael budd uniongyrchol o gynlluniau arbedion. Dylai’r Bwrdd Iechyd ddatblygu egwyddorion ar gyfer cyfarwyddiaethau sy’n annog gweithio ar draws y Bwrdd Iechyd cyfan.

A4 Canfuom mai cyfyngedig yw’r adnoddau a’r sgiliau rheoli prosiect a dadansoddi data sydd gan y Bwrdd Iechyd er mwyn cefnogi’r broses o gynllunio a chyflawni arbedion, yn enwedig ar gyfer cynlluniau i’r Bwrdd Iechyd cyfan. Dylai’r Bwrdd Iechyd adolygu ac ystyried gwella adnoddau a sgiliau rheoli prosiect a dadansoddi data.

**Cynllunio Strategol**

A5 Dylai’r Bwrdd Iechyd fireinio proses adrodd y Cynllun Tymor Canolig Integredig ymhellach er mwyn cynnwys gwybodaeth fanwl am gerrig milltir er mwyn galluogi Aelodau Annibynnol i ddeall y perfformiad presennol yn unol â’r hyn a ddisgwylir.

**TGCh**

A6 Dylai’r Bwrdd Iechyd sicrhau bod cynllun gweithredu manwl a chanddo adnoddau i’w gwneud yn bosibl i’r Strategaeth Iechyd Ddigidol gael ei chyflawni.

**Gwella ansawdd papurau’r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Risg**

A7 Mae angen i’r Bwrdd Iechyd fireinio ansawdd ei bapurau a gyflwynir i’r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Risg;

- gwneud y papurau yn fwy cryno ac iddynt fwy o ffocws; ac
- ystyried y ffordd y rheolir yr agenda, er enghraifft, cyflwyno materion mwy cymhleth ar ddechrau’r pwyllgor, a symud penderfyniadau i gymeradwyo polisïau tua diwedd yr agenda.

# Adroddiad manwl

## Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i weithredu trefniadau llywodraethu, cynllunio a rheoli ariannol effeithiol, ond mae cyfleoedd i wella megis drwy atgyfnerthu'r ffordd y mae'n rheoli newid ac yn gweithredu'r strategaeth ddigidol

26 Manylir ar y canfyddiadau sy'n sail i'r casgliad hwn isod.

### Mae'r Bwrdd Iechyd yn cyflawni ei ddyletswydd ariannol statudol i fantoli'r gyllideb dros gylch o dair blynedd ond mae'r arbedion anghylchol yn cynyddu, ac er bod y ffordd y mae'n cynllunio arbedion yn effeithiol mae cyfle i ddatblygu cynlluniau mwy trawsnewidiol a gwella'r gwaith rheoli prosiect a dadansoddi data

27 Yn ogystal â gwneud sylwadau ar sefyllfa ariannol gyffredinol y Bwrdd Iechyd, mae ein gwaith mewn perthynas â'r asesiad strwythuredig yn 2017 wedi ystyried y camau gweithredu y mae'r Bwrdd Iechyd yn eu cymryd i fantoli'r gyllideb a chreu cynaliadwyedd ariannol yn y tymor hwy. Rydym wedi asesu'r trefniadau corfforaethol ar gyfer cynllunio a chyflawni arbedion ariannol yng nghyd-destun sefyllfa ariannol gyffredinol y sefydliad. Roedd archwiliad manwl o gynlluniau arbedion unigol y tu hwnt i gwmpas yr adolygiad hwn. Fodd bynnag, rydym wedi ystyried y dull gweithredu ym maes rheoli meddyginiaethau ac mae hyn wedi llywio ein barn gyffredinol ar effeithiolrwydd y sefydliad o ran cynllunio a chyflawni arbedion. Rydym hefyd wedi adolygu'r cynnydd a wnaed i fynd i'r afael â'r argymhellion yn yr asesiad strwythuredig blaenorol ynghylch rheoli ariannol. Nodir ein canfyddiadau isod.

#### Cyflawnodd y Bwrdd Iechyd ei ddyletswydd ariannol statudol i fantoli'r gyllideb dros gyfnod o dair blynedd a methwyd â chyflawni targed arbedion 2016-17 o drwch blewyn, ond ni chyflawnwyd y rhan fwyaf o dargedau arbedion cyfarwyddiaethau ac mae cyfran yr arbedion anghylchol wedi cynyddu

28 Bob blwyddyn, mae Llywodraeth Cymru yn dyrannu refeniw i'r Bwrdd Iechyd er mwyn darparu'r adnoddau i'r Bwrdd Iechyd dalu am wasanaethau gofal iechyd a ddarperir yn lleol ac a ddarperir drwy gontract ar gyfer ei boblogaeth breswyl. Cyfeirir at y dyraniad hwn fel y Terfyn Adnoddau Refeniw. Bob blwyddyn, ceir cynnydd yn y Terfyn Adnoddau Refeniw a ddyrennir ar ddechrau'r flwyddyn gan Lywodraeth Cymru. Mae'r cynnydd hwn mewn refeniw yn helpu i ymdrin â chostau chwyddiannol gofal iechyd[1], sy'n cynnwys twf mewn costau cyflogau, costau meddyginiaethau, a'r galw cynyddol am wasanaethau.

29 Fel rhan o ofynion Deddf Cyllid y GIG (Cymru) 2014 (y Ddeddf), rhaid i'r Bwrdd Iechyd wario o fewn ei ddyraniadau ariannol dros gyfnod ariannol treigl o dair blynedd. Y cyfnod a ddaeth i ben yn 2016-17 oedd y flwyddyn gyntaf y cafodd Byrddau Iechyd eu hasesu yn erbyn y rhwymedigaeth hon a chyflawnodd Cwm Taf ei ddyletswydd ariannol statudol. Caeodd y Bwrdd Iechyd bob un o'r tair blwyddyn ariannol gyda gwarged bach, sy'n golygu bod gwarged o £70,000 erbyn diwedd y cyfnod. Ar


[1] Gwefan Gwella'r GIG Rhagdybiaethau economaidd 2016/17 i 2020/21, 23 Mawrth 2016

gyfer 2017-18, roedd ffurflenni monitro Llywodraeth Cymru mis saith y Bwrdd Iechyd yn rhagweld y byddai'n mantoli'r gyllideb yn ystod y flwyddyn. Hefyd, o ystyried y gwarged a gafwyd yn ystod y ddwy flynedd flaenorol, mae'n debygol y bydd y Bwrdd Iechyd yn cyflawni ei ddyletswydd ariannol statudol ar gyfer y cyfnod treigl o dair blynedd a ddaw i ben yn 2017-18.

30 Yn 2016-17, pennodd y Bwrdd Iechyd darged arbedion o £14 miliwn; cyflawnodd arbedion gwerth £13.4 miliwn, gan golli'r targed o 4%. Fodd bynnag, mae'r perfformiad hwn yn well nag mewn blynyddoedd blaenorol. Dengys Arddangosyn 1, er bod lefelau'r arbedion a gynlluniwyd ar ddechrau'r flwyddyn ariannol (mis 1) wedi gostwng, fod yr arbedion gwirioneddol a gyflawnwyd ar ddiwedd y flwyddyn wedi cynyddu. Awgryma hyn fod y Bwrdd Iechyd wedi gwella'r ffordd y mae'n cynllunio'r broses o leihau costau fel bod targedau yn fwy realistig a chyflawnadwy

Arddangosyn 1: Arbedion a gynlluniwyd ym mis 1 ac a gyflawnwyd ym mis 12 rhwng 2012-13 a 2016-17

Dengys y siart fod y lefelau o arbedion a gynlluniwyd ar ddechrau'r flwyddyn wedi gostwng yn ystod y pum mlynedd ddiwethaf, ond bod yr arbedion gwirioneddol a gyflawnwyd wedi cynyddu.




Ffynhonnell: Yr arbedion a gofnodwyd gan y Bwrdd Iechyd yn ei ffurflenni monitro i Lywodraeth Cymru

31 Ar ddechrau'r flwyddyn ariannol, dirprwyir targed arbedion i bob cyfarwyddiaeth ac maent yn gyfrifol am gynllunio rhaglen o gynlluniau i gyflawni'r arbedion angenrheidiol. Yn 2016-17, nodwyd 319 o gynlluniau arbedion. At ei gilydd, bu bron i'r Bwrdd Iechyd gyflawni ei darged arbedion o £14 miliwn ond methodd nifer o gyfarwyddiaethau â chyflawni eu targedau. Dengys Arddangos 2, o blith y 26 o gyfarwyddiaethau yn y Bwrdd Iechyd, fod tair wedi cyflawni eu targed, bod wyth wedi gorgyflawni (o

£2.8 miliwn) a bod y 15 cyfarwyddiaeth arall wedi tangyflawni (o £3.1 miliwn). O blith y 15 cyfarwyddiaeth na lwyddasant i gyflawni eu targed arbedion, collodd dwy eu targed o drwch blewyn (gofal sylfaenol ac iechyd meddwl) ond collodd y mwyafrif o 50% neu lai.

Arddangosyn 2: dadansoddiad o berfformiad cyfarwyddiaeth yn erbyn ei tharged arbedion ar gyfer 2016-17

Dengys y tabl fod 15 o gyfarwyddiaethau wedi colli eu targed arbedion yn 2016-17, y collodd 10 ohonynt o lai na 50%. Fodd bynnag, gorgyflawnodd wyth cyfarwyddiaeth yn erbyn eu targed.

| Cyfarwyddiaeth | Nifer y cynlluniau | Targed yn ystod y flwyddyn ar gyfer 2016-17 (£) | Arbedion a gyflawnwyd erbyn mis 12 (£) | Gwahaniaeth rhwng y targed a'r hyn a gyflawnwyd (£) | % a gyflawnwyd |
|---|---:|---:|---:|---:|---:|
| TGCh | 5 | 147,000 | 4,000 | -143,000 | 2.7 |
| Meddygaeth Gyffredinol, Trawma ac Orthopedeg ac Wroleg | 11 | 463,000 | 37,000 | -426,000 | 8.0 |
| CAMHS | 4 | 282,000 | 38,000 | -244,000 | 13.5 |
| Datblygu Corfforaethol | 5 | 63,000 | 10,000 | -53,000 | 15.9 |
| Cyfleusterau | 30 | 1,004,000 | 214,000 | -790,000 | 21.3 |
| Perfformiad a Gwybodaeth | 6 | 86,000 | 31,000 | -55,000 | 36.0 |
| Gofal a Diogelwch Cleifion | 5 | 144,000 | 57,000 | -87,000 | 39.6 |
| Radioleg | 16 | 233,000 | 98,000 | -135,000 | 42.1 |
| Obstetreg, Gynaecoleg ac Iechyd Rhywiol | 14 | 326,000 | 145,000 | -181,000 | 44.5 |
| Y Pen a'r Gwddf | 29 | 334,000 | 158,000 | -176,000 | 47.3 |
| Meddygaeth Acíwt a Damweiniau ac Achosion Brys | 23 | 1,261,000 | 672,000 | -589,000 | 53.3 |
| Patholeg | 13 | 228,000 | 122,000 | -106,000 | 53.5 |
| ACT, Cofnodion Meddygol a Chleifion Allanol | 34 | 487,000 | 344,000 | -143,000 | 70.6 |
| Gofal Sylfaenol | 3 | 17,000 | 16,000 | -1,000 | 94.1 |
| Iechyd Meddwl | 14 | 510,000 | 509,000 | -1,000 | 99.8 |
| **Cyfanswm nas cyflawnwyd** | | | | **-3,130,000** | |
| Ardaloedd Lleol | 14 | 928,000 | 928,000 | 0 | 100.0 |
| Therapïau | 37 | 284,000 | 284,000 | 0 | 100.0 |
| Prif Swyddog Gweithredol | 3 | 41,000 | 41,000 | 0 | 100.0 |
| Rheoli Meddyginiaethau | 9 | 1,529,000 | 1,536,000 | 7,000 | 100.5 |
| Cyllid a Chaffael | 4 | 47,000 | 48,000 | 1,000 | 102.1 |
| Cynllunio a Strategaeth | 6 | 45,000 | 46,000 | 1,000 | 102.2 |


| Cyfarwyddiaeth | Nifer y cynlluniau | Targed yn ystod y flwyddyn ar gyfer 2016-17 (£) | Arbedion a gyflawnwyd erbyn mis 12 (£) | Gwahaniaeth rhwng y targed a'r hyn a gyflawnwyd (£) | % a gyflawnwyd |
|---|---|---|---|---|---|
| Plant a Phobl Ifanc | 10 | 87,000 | 90,000 | 3,000 | 103.4 |
| Y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol | 5 | 92,000 | 101,000 | 9,000 | 109.8 |
| Ystadau | 13 | 579,000 | 758,000 | 179,000 | 130.9 |
| Contractio a Chomisiynu | 6 | 751,000 | 1,096,000 | 345,000 | 145.9 |
| Canolog | Ddim yn hysbys | 3,774,000 | 6,019,000 | 2,245,000 | 159.5 |
| **Cyfanswm a orgyflawnwyd** | | | | **2,790,000** | |

Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o ddata Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf

32 Wrth ddatblygu cynlluniau arbedion, mae'n bwysig ystyried y cydbwysedd rhwng cynlluniau arbedion cylchol ac anghylchol ac effaith y cynlluniau hynny. Dylai mwy o ffocws ar gynlluniau cylchol olygu y bydd llai o bwysau ar y gyllideb yn ystod y blynyddoedd dilynol. Dros y tair blynedd ddiwethaf, mae lefelau'r arbedion cylchol a gyflawnwyd yn y Bwrdd Iechyd wedi gostwng. Dengys Arddangosyn 3 fod y rhan fwyaf o arbedion yn 2014-15 a 2015-16 yn rhai cylchol (96% a 85% yn y drefn honno) ond yn 2016-17 roedd y gyfran wedi gostwng i ddim ond 40%. Awgryma hyn fod y Bwrdd Iechyd yn ei chael hi'n gynyddol anodd dod o hyd i arbedion cylchol.

Arddangosyn 3: cyfran yr arbedion cylchol ac anghylchol a gyflawnwyd rhwng 2014-15 a 2016-17

Siart yn dangos bod cyfran yr arbedion cylchol wedi gostwng yn y tair blynedd rhwng 2014-15 a 2016-17.





Ffynhonnell: Yr arbedion a gofnodwyd gan y Bwrdd Iechyd yn ei ffurflenni monitro i Lywodraeth Cymru

33 O’u dadansoddi yn ôl categori[2], dengys Arddangosyn 4 y gellid priodoli’r rhan fwyaf o arbedion yn 2016-17 i gynlluniau nad ydynt yn ymwneud â chyflogau (cyfanswm o £6 miliwn). A heblaw am reoli meddyginiaethau, a gyflawnodd 100% o gynlluniau cylchol, bu rhaniad cyfartal rhwng arbedion cylchol ac anghylchol ar gyfer y categorïau eraill (heblaw am ofal sylfaenol, na ddyrannwyd targed arbedion sy’n rhyddhau arian parod iddo).

Arddangosyn 4: arbedion cylchol ac anghylchol a gyflawnwyd yn 2016-17

Dengys y siart fod arbedion anghylchol ac arbedion nad ydynt yn ymwneud â chyflogau yn cyfrif am gyfran uchel o’r arbedion a gyflawnwyd yn 2016-17




Ffynhonnell: Yr arbedion a gofnodwyd gan y Bwrdd Iechyd yn ei ffurflenni monitro i Lywodraeth Cymru

34 Ar gyfer 2017-18, mae’r Bwrdd Iechyd wedi pennu targed o £13.5 miliwn o arbedion yn ystod y flwyddyn. Dengys y diweddariad cyllid ar gyfer mis chwech a gyflwynwyd i’r Bwrdd fod y Bwrdd Iechyd £1 filiwn yn brin o’r targed o £6.9 miliwn a broffiliwyd ganddo, ond ei fod wedi rhagweld y bydd yn rhagori ar y targed o £1.6 miliwn erbyn diwedd y flwyddyn. Er bod hyn yn gadarnhaol, mae’r Bwrdd Iechyd yn rhagweld sefyllfa debyg i 2016-17, lle y rhagwelir y bydd rhai cyfarwyddiaethau yn tangyflawni yn erbyn eu targed arbedion, a gaiff ei wrthbwyso gan feysydd gwasanaeth sy’n gorgyflawni. Mae hyn yn codi cwestiynau ynghylch a yw’r Bwrdd Iechyd yn cynllunio targedau arbedion dirprwyedig realistig.

[2] Categorïau fel y’u defnyddir mewn ffurflenni cyllid misol i Lywodraeth Cymru.

### Mae gan y Bwrdd Iechyd system effeithiol o gynllunio arbedion sy'n gysylltiedig â chylch cynllunio'r Cynllun Tymor Canolig Integredig, ond bydd angen cynlluniau mwy trawsnewidiol er mwyn cyflawni arbedion cynaliadwy, cylchol ac mae le i wella adnoddau a sgiliau rheoli prosiect a dadansoddi data er mwyn helpu i'w cyflawni

35 Mae'n rhaid i'r holl Fyrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau yng Nghymru nodi arbedion er mwyn gallu anelu at wario o fewn eu dyraniad refeniw. I lawer o gyrff, mae pwysau cost cynyddol yn ei gwneud hi'n gynyddol anodd pennu cyllideb fantoledig, hyd yn oed gyda chynnydd blynyddol yn y cyllid a ddyrennir. Mae dulliau traddodiadol o gyflawni arbedion ledled Cymru wedi canolbwyntio ar fesurau rheoli costau, arbedion caffael, rhewi ymgyrchoedd recriwtio a newidiadau o ran cymysgedd sgiliau neu gymysgedd graddau staff, ymhlith eraill. Unwaith y rhoddir y dulliau gweithredu hyn ar waith, bydd yn ofynnol i gyrff iechyd feddwl yn wahanol, gan na fydd mesurau cwtogi costau mor effeithiol. Mae'r adran hon o'r adroddiad yn ystyried y trefniadau corfforaethol ar gyfer cynllunio a chyflawni arbedion. Nid ydym wedi adolygu cynllun, atebolrwydd, risgiau na pherfformiad cynlluniau arbedion unigol.

### Mae gan y Bwrdd Iechyd system effeithiol o nodi arbedion sy'n manteisio ar y cyfleoedd sydd ar gael ac sy'n gysylltiedig â chylch cynllunio'r Cynllun Tymor Canolig Integredig, ond, er mwyn cyflawni arbedion cylchol, cynaliadwy bydd angen cynlluniau hirdymor mwy trawsnewidiol

36 Mae gan y Bwrdd Iechyd ddull o'r brig i'r bôn ac o'r bôn i'r brig o nodi arbedion. Mae'r tîm cyllid corfforaethol yn defnyddio Fframwaith Effeithlonrwydd a Gwerth i fapio arbedion cost posibl, a nodir drwy feincnodi, adolygu dangosyddion perfformiad a dadansoddi amrywiannau cylchol. Mae'r fframwaith, sy'n seiliedig ar egwyddorion gwerth, gofal iechyd darbodus, effeithlonrwydd ac ailddylunio, yn ei gwneud yn bosibl i arbedion gael eu cynllunio yn erbyn themâu cyffredinol, megis gwell rheolaethau cost a lleihau costau, modelau staffio, rheoli'r gweithlu, recriwtio a chadw, ac effeithlonrwydd a chynhyrchiant.

37 Caiff yr arbedion posibl eu mapio i'r maes gwasanaeth mwyaf priodol, sy'n golygu bod targedau dirprwyedig yn seiliedig ar lefelau cyfleoedd a nodwyd yn hytrach na rhoi targed unffurf i bob cyfarwyddiaeth. Mae'r dull gweithredu hwn yn sicrhau bod targedau'n briodol ar gyfer y gwasanaeth, felly dirprwyir targed sy'n addas ar gyfer meysydd gwasanaeth sy'n ddarbodus neu'r rhai sydd â mwy o gyfle. Er enghraifft, nid oes gan y Gyfarwyddiaeth Gofal Sylfaenol darged arbedion sy'n rhyddhau arian parod ond mae rhwymedigaeth o hyd ar y gyfarwyddiaeth i weithio'n effeithlon gan y bydd hyn yn helpu'r cyfarwyddiaethau acíwt a meddygol i gyflawni eu targedau.

38 Nid yw'r Bwrdd Iechyd wedi newid y ffordd y mae'n cynllunio arbedion yn sylweddol ers 2016-17. Fodd bynnag, ar gyfer 2017-18, er mwyn cydnabod maint yr her a'r amser a gymerai i wireddu'r arbedion, cynhwysodd y Bwrdd Iechyd gronfa wrth gefn o £4 miliwn rhag ofn bod cynlluniau ac amseriad gweithredu yn llithro. Hefyd, rhannwyd y targed arbedion ar gyfer 2017-18 fel a ganlyn:

- Lleihau gorwariannau 16-17 – £6.2 miliwn
- Diffyg cyflawni arbedion 16-17 – £2.2 miliwn
- Cyfleoedd newydd i gyflawni arbedion – £9.1 miliwn

39 Pennwyd cyfanswm targed arbedion o £17.5 miliwn ar gyfer 2017-18, ond mae'r gronfa wrth gefn o £4 miliwn ar gyfer cynlluniau sy'n dechrau hanner ffordd drwy'r flwyddyn yn gostwng y targed arbedion yn ystod y flwyddyn i £13.5 miliwn. Mae gan y Bwrdd Iechyd broses arbedion dreigl, sy'n golygu bod arbedion nas cyflawnwyd a gorwariant yn treiglo i'r flwyddyn ddilynol. Mae'r dull gweithredu hwn yn sicrhau bod cyfarwyddiaethau yn dal i fod yn atebol am eu cyllidebau. Hefyd, caiff cynlluniau arbedion

cyfarwyddiaethau eu proffilio bob mis ar gyfer y flwyddyn gyfredol ond maent hefyd yn nodi arbedion lefel uchel ar gyfer y ddwy flwyddyn ddilynol.

40 Mae cynlluniau arbedion yn gyson â chylch cynllunio Cynllun Tymor Canolig Integredig y Bwrdd Iechyd. Er mwyn sicrhau bod y ddwy broses wedi'u cysylltu â'i gilydd, yn 2017-18 cyflwynodd y Bwrdd Iechyd dempled cynllun arbedion y mae'n rhaid i gyfarwyddiaethau ei gyflwyno ar y cyd â'u Cynllun Tymor Canolig Integredig. Y broses a ddilynwyd gan y Bwrdd Iechyd yn 2017-18 oedd:

- Tachwedd 2016 – cyhoeddwyd targed arbedion drafft fel rhan o'r fframwaith cynllunio lleol[3],
- Ionawr 2017 – cafodd cynlluniau drafft eu cyflwyno gan y cyfarwyddiaethau gan ddefnyddio'r templed yn y fframwaith a'u hadolygu a rhoddwyd adborth,
- Mawrth 2017 – cyflwynodd y cyfarwyddiaethau eu cynlluniau terfynol a rhoddwyd adborth, ac
- Ebrill 2017 ymlaen – anfonwyd statws Llythyr Cynllun Terfynol gan y Prif Weithredwr i'r cyfarwyddiaethau.

41 Fel rhan o'r broses gynllunio, creffir ar bob Cynllun Tymor Canolig Integredig ar lefel cyfarwyddiaeth drwy broses asesu a chymeradwyo. Mae'r broses yn cynnwys adolygu cynlluniau o dan nifer o feini prawf, sef:

- Cynllunio
- Ansawdd
- Cyfalaf
- Y gweithlu
- Arbedion
- Asesiad ansoddol o gadernid a chydlyniaeth cynlluniau ariannol

42 Caiff pob maen prawf ei sgorio drwy ddefnyddio system goleuadau traffig. O blith y 23 o asesiadau o Gynlluniau Tymor Canolig Integredig a wnaed mewn perthynas â chynlluniau arbedion yn 2017-18, cafodd 13 statws coch, sy'n golygu nad oeddent wedi nodi'r 79% o'u targedau arbedion ariannol a oedd yn ofynnol. Cafodd wyth cynllun statws gwyrdd a chafodd ddau statws melyn. Roedd saith o'r asesiadau a gafodd statws gwyrdd yn Gynlluniau Tymor Canolig Integredig Corfforaethol. Tynnwyd sylw at y maes hwn yn ein hasesiad strwythuredig y llynedd, a nodwyd bod angen i'r Bwrdd Iechyd ailystyried hyn er mwyn deall yn well y rhesymau dros arbedion a oedd yn is na'r hyn a oedd yn ofynnol a hefyd ddeall yn well yr heriau i gyflawni arbedion mewn gwirionedd yn ystod y flwyddyn. Mae canlyniadau'r asesiad eleni yn nodi bod hon yn dal i fod yn broblem a bod angen gwneud rhagor o waith. Trafodir y fframwaith rheoli perfformiad newydd sy'n cael ei roi ar waith ymhellach yn yr adroddiad hwn ac mae'n dangos y camau y mae'r Bwrdd Iechyd yn eu cymryd i geisio gwella atebolrwydd o fewn cyfarwyddiaethau.

43 Er nad oes modd cyd-drafod y targedau arbedion a ddirprwyir i gyfarwyddiaethau, roedd y staff a gyfwelwyd gennym fel rhan o'n gwaith ar olrhain rheoli meddyginiaethau yn teimlo y gwrandewir ar gyfarwyddiaethau a bod y system yn rhoi rhywfaint o hyblygrwydd. Er enghraifft, eleni, dirprwywyd targed arbedion o 1.5% i ofal sylfaenol, ond nid oedd y tîm yn gallu dod o hyd i gyfres lawn o gynlluniau i gyfateb i'r arbedion a nodwyd. Roedd y tîm wedi nodi 1.25% ac wedi cytuno i gyflawni yn erbyn y targed hwn ar yr amod ei fod yn parhau i chwilio am gynlluniau i gau'r bwlch. Fodd bynnag,

[3] Y fframwaith cynllunio lleol yw'r canllawiau a roddir i gyfarwyddiaethau yn y Bwrdd Iechyd i'w helpu i ddatblygu eu Cynlluniau Tymor Canolig Integredig.

mae maes rheoli meddyginiaethau yn gyffredinol ar y trywydd cywir i gyflawni ei darged ar gyfer 2017-18.

44 Mae gan y Bwrdd Iechyd naw thema drawsbynciol sy'n cefnogi cynlluniau arbedion cyfarwyddiaethau, sef:

- Gofal Heb ei Drefnu Integredig
- Gofal Wedi'i Gynllunio a Chynhyrchiant Theatrau
- Ailddylunio Gwasanaethau ac Ad-drefnu Safleoedd
- Cynhyrchiant y Gweithlu a'i Wella (meddygol a nyrsio)
- Contractio a Chomisiynu
- Gwariant nad yw'n ymwneud â chyflogau
- Gofal Iechyd Parhaus
- Atal a Gwella Gwerth Gofal Iechyd

45 Mae'r themâu trawsbynciol yn ffrydiau gwaith swyddogion gweithredol arweiniol sy'n rhychwantu cyfarwyddiaethau. Y fantais yw ei bod yn rhoi cyfleoedd i'r Bwrdd Iechyd sicrhau arbedion maint a chynllunio arbedion ac arbedion effeithlonrwydd ehangach, mwy cynaliadwy. Caiff cynnydd yn erbyn pob thema ei fonitro drwy'r Bwrdd Effeithlonrwydd, Cynhyrchiant a Gwerth newydd. Mae'r trafodaethau yr arsylwyd arnynt yng nghyfarfod y Bwrdd Effeithlonrwydd, Cynhyrchiant a Gwerth ym mis Tachwedd 2017 yn awgrymu mai araf yw'r cynnydd yn erbyn nifer o brosiectau themâu trawsbynciol a bod hyn yn rhannol oherwydd prinder adnoddau a chymorth rheoli prosiect.

46 Mae gan y Bwrdd Iechyd rai cynlluniau buddsoddi i arbed wedi'u hariannu'n fewnol a chan Lywodraeth Cymru hefyd, ond mae'r rhain yn gyfyngedig. Ymhlith yr enghreifftiau mae rheoli cofnodion drwy Lywodraeth Cymru a chynllun mewnol diweddar ym maes rheoli meddyginiaethau i recriwtio nyrs i helpu i symud cleifion o gyffuriau cost uchel i gynnyrch tebyg (biodebyg). Hefyd, mae rhai cynlluniau cymhelliant ym maes rheoli meddyginiaethau i leihau rhagnodi gan feddygon teulu a chyffuriau anadlol.

47 Fodd bynnag, mae'r rhan fwyaf o arbedion y Bwrdd Iechyd yn rhai byrdymor ac fel y'i nodir yn yr adran uchod maent yn gynyddol anghylchol. Mae trawsnewid hirdymor yn cymryd amser i'w gynllunio a'i ymgorffori mewn sefydliad, Er bod gan y Bwrdd Iechyd rai prosiectau trawsnewid megis Rhaglen Valley Life ym maes iechyd meddwl, bydd angen datblygu mwy ohonynt er mwyn cyflawni'r lefelau o arbedion cylchol sydd eu hangen a sicrhau bod gwasanaethau yn parhau'n gynaliadwy.

## Er bod systemau galluogi a chymorth ar waith i gefnogi'r broses o gynllunio a chyflawni arbedion, mae prinder adnoddau a sgiliau rheoli prosiect a dadansoddi data

48 Yn gyffredinol, mae gan ddeiliaid cyllideb rwydwaith da o gymorth o fewn y Bwrdd Iechyd. Fel yr esbonnir uchod, mae'r tîm cyllid canolog yn nodi cyfleoedd lle y gall meysydd gwasanaeth gyflawni arbedion. Nododd y rhai a gyfwelwyd gennym drwy ein gwaith olrhain ar reoli meddyginiaethau fod y tîm yn hawdd mynd ato ac yn cynnig cymorth pan fo'i angen. Hefyd, mae'r Bwrdd Iechyd wedi cyflogi ymgynghorydd allanol ar gontract chwe mis i helpu cyfarwyddiaethau sy'n destun mesurau uwchgyfeirio gyda'u cynlluniau adfer.

49 Yn weithredol, mae tîm o bartneriaid busnes wedi'i alinio â phob un o'r cyfarwyddiaethau; mae'r rhain yn cynnwys cyllid, TGCh ac adnoddau dynol. Ym maes fferylliaeth, caiff cynlluniau arbedion eu codi gyda phartneriaid busnes a'u trafod yn anffurfiol yng Nghyfarfodydd Busnes Cyfarwyddiaethau cyn

iddynt gael eu cyflwyno i Gyfarfodydd Busnes Clinigol i'w cymeradwyo. Oherwydd natur y cynlluniau lleihau costau mae gan y tîm fferylliaeth berthynas waith agos â'i bartner busnes cyllid. Hefyd, bob wythnos, mae aelod o'r tîm cyllid yn cael ei leoli yn y swyddfa fferylliaeth; mae hyn yn helpu i wella deialog ac ymdrin â materion wrth iddynt godi.

50 Nododd y tîm corfforaethol fod cynlluniau arbedion yn cael eu hystyried yng nghyd-destun yr holl gyfarwyddiaethau er mwyn nodi cyfleoedd i gydweithio, yr effaith ar feysydd gwasanaeth a dyblygu. Hefyd, mae gan y Bwrdd Iechyd Adnodd Asesu'r Effaith ar Ansawdd y mae'n rhaid ei gwblhau ar gyfer arbedion dros £100,000, ond nid yw'n ystyried yr effaith ar gyfarwyddiaethau eraill, gwasanaethau a phartneriaid allanol. At hynny, mae proses gynllunio Cynllun Tymor Canolig Integredig y Bwrdd Iechyd yn cynnwys adolygiad gan gymheiriaid ond awgryma ein cyfweliadau olrhain nad yw hyn yn ddigon i adnabod cyfleoedd trawsweithio posibl na dyblygu yn llawn. Fodd bynnag, dywedwyd wrthym y gall fod cymhlethdodau o ran cydweithio, er enghraifft, cyfarwyddiaethau yn amharod i weithio ar gynllun arbedion oni fyddant yn cael budd uniongyrchol ohono. Ar gyfer sefyllfaoedd o'r fath, bydd angen cyfres o egwyddorion ar y Bwrdd Iechyd er mwyn helpu i annog gweithio ar draws y Bwrdd Iechyd cyfan.

51 Mae gan y Bwrdd Iechyd Swyddfa Rheoli Rhaglenni, sy'n helpu i gynllunio a chyflawni rhai o'r themâu trawsbynciol allweddol. Fodd bynnag, nodwyd bod cymorth i reoli rhaglenni yn wendid drwy ein gwaith olrhain ar reoli meddyginiaethau. Er enghraifft, mae'r gyfarwyddiaeth wedi nodi arbedion posibl mewn cyffuriau anadlol sy'n rhychwantu gofal sylfaenol, eilaidd a chymunedol. Byddai angen cydweithrediad drwy'r Bwrdd Iechyd cyfan ar gyfer y math hwn o gynllun a byddai'n fuddiol pe bai'n cael ei reoli fel prosiect penodol, ond nid yw'r tîm fferylliaeth yn gallu cael gafael ar y math hwn o gymorth. Mae'r tîm yn bwriadu datblygu'r cynllun hwn ond gyda chymorth hyfforddai graddedig sy'n ymuno â'r tîm ym mis Tachwedd 2017.

52 Mater arall a godwyd oedd prinder sgiliau a chymorth ym maes dadansoddi data. Mae'r tîm fferylliaeth a'r Bwrdd Iechyd yn gyffredinol yn dal llawer o wybodaeth a allai gael ei defnyddio i gynllunio arbedion mwy ystyrlon. Er enghraifft, gellid echdynnu data am amrywiannau yn ymarfer rhagnodi meddygon teulu fel y gellir mynd i'r afael â gwariant ar lefel leol. Fodd bynnag, nid oes gan y tîm fferylliaeth yr amser, yr adnoddau na'r arbenigedd i ddadansoddi'r data yn effeithiol na'u defnyddio.

## Mae lefel dda o graffu ar gyflawni arbedion ar lefel y Bwrdd ac ar lefel Pwyllgor ac mae'r Bwrdd Iechyd yn atgyfnerthu trefniadau monitro ar lefel weithredol ac ar lefel cyfarwyddiaeth

53 Mae gwaith monitro a chraffu cadarn a rheolaidd ar gynlluniau arbedion a'r ffordd y cânt eu cyflawni wedyn yn sicrhau y caiff llithriant, risgiau a phroblemau eu nodi'n gynnar fel y gellir cymryd camau lliniaru. Mae angen i'r Bwrdd a'r tîm gweithredol gael sicrwydd bod arbedion yn cael eu cyflawni'n gyflym a bod y Bwrdd Iechyd yn cyflawni ei dargedau erbyn diwedd y flwyddyn ariannol. Yn y Bwrdd Iechyd caiff arbedion eu cofnodi ar bob lefel yn y sefydliad:

- ar lefel y Bwrdd: Pwyllgor y Bwrdd a'r Pwyllgor Cyllid, Perfformiad a'r Gweithlu
- ar lefel Cyfarwyddwyr Gweithredol: y Bwrdd Gweithredol a'r Bwrdd Effeithlonrwydd, Cynhyrchiant a Gwerth
- ar lefel Cyfarwyddiaeth: cyfarfodydd Busnes Clinigol (gyda swyddogion gweithredol), a chyfarfodydd Busnes Cyfarwyddiaethau (cyfarfodydd lleol â phartneriaid busnes)

54 Mae'r Pwyllgor Cyllid, Perfformiad a'r Gweithlu yn cyfarfod bob mis ac yn cael adroddiad cyllid, sy'n cynnwys y diweddaraf ar gyflawni arbedion a'r lefelau o arbedion a nodwyd. Mae cyflwyniad yr

adroddiad yn amlinellu'r sefyllfa lefel uchel yn erbyn y targed arbedion a'r risgiau allweddol, sy'n cynnwys cyflawni cynlluniau arbedion dirprwyedig. Ceir adran ar berfformiad cynlluniau arbedion sy'n rhoi crynodeb lefel uchel o'r sefyllfa hyd yma yn ystod y flwyddyn ac sy'n cynnwys tabl sy'n crynhoi perfformiad yn ôl thema a siart sy'n manylu ar y lefelau o arbedion a nodwyd yn ôl mis. Ceir crynodeb ar wahân ar gyfer arbedion nas dirprwywyd. Mae'r Bwrdd, sy'n cyfarfod bob deufis, yn cael yr un adroddiad ond heb yr atodiadau, sy'n dangos y sefyllfa o ran arbedion ar gyfer cyfarwyddiaethau unigol.

55 Yng nghyfarfod y Pwyllgor Cyllid, Perfformiad a'r Gweithlu ac yng nghyfarfod y Bwrdd gwelsom fod gwaith craffu da ar gyflawni arbedion; o'r cwestiynau a ofynnwyd, roedd yn amlwg bod yr aelodau yn deall y materion yr oedd y Bwrdd Iechyd yn eu hwynebu ac roedd yr adroddiad cyllid yn cael ei gyflwyno mewn ffordd eglur. Neilltuwyd digon o amser ar gyfer y diweddariad ariannol yng nghyfarfod y pwyllgor ac yng nghyfarfod y Bwrdd.

56 Fel rhan o'r adolygiad hwn, gofynnwyd i'r Bwrdd Iechyd gwblhau arolwg hunanasesu. Un o'r cwestiynau a ofynnwyd oedd y graddau y cytunodd y Bwrdd Iechyd â chyfres o ddatganiadau ynglŷn â chraffu ar arbedion. Mae Arddangosyn 5 yn nodi ymateb y Bwrdd Iechyd ac mae'n amlwg bod y Bwrdd Iechyd yn hyderus ynglŷn â lefel a chadernid y gwaith craffu a wneir a llinellau atebolrwydd. Fodd bynnag, codwyd cyflymder y broses o gyflawni arbedion fel achos pryder gan aelodau'r Bwrdd a gyfwelwyd gennym fel rhan o'r asesiad strwythuredig craidd.

Arddangosyn 5: Ymateb y Bwrdd Iechyd i gyfres o ddatganiadau ynghylch gwaith craffu a herio yn ystod y flwyddyn ar gynnydd cynlluniau arbedion

Tabl yn dangos Ymateb y Bwrdd Iechyd i gyfres o ddatganiadau ynghylch gwaith craffu a herio yn ystod y flwyddyn ar gynnydd cynlluniau arbedion.

| Datganiadau ynghylch craffu ar gynlluniau arbedion | Ymateb y Bwrdd Iechyd |
|---|---|
| Mae'r gwaith craffu a herio gan y Bwrdd a'i bwyllgor dirprwyedig ar y cynnydd a wnaed yn ystod y flwyddyn i gyflawni arbedion yn gadarn. | Cytuno'n gryf |
| Mae'r gwaith craffu yn amserol, gan roi digon o amser i gymryd camau adferol. | Cytuno |
| Caiff yr effeithiau ar ansawdd gwasanaethau eu hystyried gan y rhai sy'n craffu ar gyflawni cynlluniau arbedion. | Cytuno |
| Ceir llinellau atebolrwydd clir ar gyfer cyflawni cynlluniau arbedion. | Cytuno |

Ffynhonnell: Ffurflen y Bwrdd Iechyd ar gyfer hunanasesiad modiwl arbedion ariannol Swyddfa Archwilio Cymru

57 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi datblygu bwrdd newydd ar lefel weithredol yn ddiweddar er mwyn rhoi trosolwg a monitro rhaglen y themâu trawsbynciol, monitro cynlluniau adfer cyfarwyddiaethau a rhoi sicrwydd i'r Bwrdd ynglŷn â chyflawni'r cynlluniau hyn. Mae'r Bwrdd Effeithlonrwydd, Cynhyrchiant a Gwerth yn rhan o broses uwchgyfeirio newydd y Bwrdd Iechyd, sy'n gwneud cyfarwyddiaethau sy'n gorwario yn erbyn eu cyllideb ac nad ydynt yn cyflawni eu targed arbedion yn destun mesurau adfer. Tynnodd y Prif Weithredwr sylw at y broses newydd yn ei llythyr i'r cyfarwyddiaethau ar ddechrau'r flwyddyn. Mae'n ofynnol i gyfarwyddiaethau sydd wedi cael eu huwchgyfeirio, sef wyth ohonynt ar

adeg ein gwaith maes, lunio cynllun adfer. Mae’r cynllun ar ffurf templed ac mae’n cynnwys adran i nodi unrhyw gymorth ychwanegol sydd ei angen. Fel y’i nodir uchod, mae’r Bwrdd Iechyd wedi penodi ymgynghorydd allanol i arwain y broses hon.

58 Cyfarfu’r Bwrdd Effeithlonrwydd, Cynhyrchiant a Gwerth am y tro cyntaf ym mis Mehefin 2017 ac mae’n gyfrifol am fonitro cynnydd yn erbyn y cynlluniau adfer a’r themâu trawsbynciol. Caiff y Bwrdd ei gadeirio gan y Prif Weithredwr ac mae’r aelodaeth yn cynnwys pob cyfarwyddwr, dirprwy gyfarwyddwr meddygol a dau gyfarwyddwr meddygol cynorthwyol. Mae’r Cyfarwyddwr Cynorthwyol dros Arloesedd a Thrawsnewid, a’r Pennaeth Rheoli Rhaglenni hefyd yn mynychu cyfarfodydd y Bwrdd. O’n harsylwadau ar y cyfarfod ym mis Tachwedd 2017, mae’n amlwg, er mai megis cychwyn y mae’r Bwrdd Effeithlonrwydd, Cynhyrchiant a Gwerth, ei fod yn cynnig her fewnol dda, y cyfle i godi problemau cyffredin a threfnu cydweithio. Roedd y Bwrdd Iechyd wrthi’n cyflwyno systemau a gweithdrefnau adrodd newydd ar gyfer cynlluniau adfer a chynlluniau effeithlonrwydd. Roedd y rhain yn cynnwys ‘cynllun ar dudalen’ ar gyfer pob thema drawsbynciol ac adroddiad ar y prif bwyntiau i godi materion, risgiau a chamau gweithredu y mae angen gwneud penderfyniad yn eu cylch. Am fod y broses yn un newydd, cafwyd rhywfaint o amrywio o ran sut y cafodd yr adroddiadau eu poblogi ond buont yn sail dda ar gyfer herio a thrafodaeth. Er enghraifft, trafodaeth am y cymorth a’r adnoddau sydd eu hangen i gyflawni prosiectau themâu trawsbynciol a phwysigrwydd cyflymu’r broses gyflawni wrth iddynt fwydo i mewn i lwyddiant cynlluniau adfer cyfarwyddiaethau. Roedd y cadeirydd yn realistig, er enghraifft, lle ceir adnoddau prin awgrymodd y dylai cyfarwyddiaethau ganolbwyntio ar gynlluniau sydd â’r enillion mwyaf. Mynnodd y cadeirydd ddod â thrafodaethau yn ôl i’r pum cwestiwn sylfaenol canlynol:

- Beth rydym yn mynd i’w wneud?
- Sut rydym yn mynd i’w wneud?
- A ydym yn cyflawni yn ei erbyn, ac os nad ydym yn gwneud hynny, pam?
- Pa gymorth neu benderfyniadau sydd eu hangen i fod yn ôl ar y trywydd cywir?
- Beth yw’r effaith ariannol?

59 Yn ystod chwe mis cyntaf 2017-18 bu’n rhaid i bob cyfarwyddiaeth gyflwyno adroddiad yn erbyn ei chynlluniau arbed bob pythefnos. Mae hyn wedi lleihau i bob mis erbyn hyn. Bu’r Bwrdd Iechyd yn gorfodi’r system hon am fod bylchau sylweddol rhwng y targedau arbedion dirprwyedig a’r cynlluniau a luniwyd i gyflawni’r targed ar ddechrau’r flwyddyn. Er mwyn deall cynnydd cynlluniau arbedion a sicrwydd cymharol y bydd y cynlluniau yn eu cyflawni, mae cynlluniau cyfarwyddiaethau wedi’u categoreiddio’n bedwar cam:

- Mae cynlluniau cam 4 ar y cam gweithredu
- Mae cynlluniau cam 3 ar y cam cynllunio manwl
- Mae cynlluniau cam 2 ar y cam cynllunio amlinellol
- Mae cynlluniau cam 1 yn syniadau cychwynnol sydd yn yr arfaeth

60 Bob mis, mae cyfarwyddiaethau yn nodi pa gam y mae pob un o’u cynlluniau arbedion wedi’i gyrraedd ac mae’r tîm cyllid corfforaethol yn coladu’r wybodaeth hon drwy dempled safonol. Mae hyn, yn y pen draw, yn bwydo i mewn i’r diweddariad cyllid a gyflwynir i’r Bwrdd.

61 Ar lefel cyfarwyddiaeth, caiff cynlluniau arbedion eu monitro drwy Gyfarfodydd Busnes Clinigol, Cyfarfodydd Busnes Cyfarwyddiaeth a chyfarfodydd tîm. Drwy fonitro ar y lefelau hyn mae modd craffu’n fanylach ar gynlluniau arbedion unigol. Mae adroddiadau monitro arbedion yn cynnwys cyfanswm yr arbedion y gellir eu cyflawni, lefel y llithriant a ragwelir, pa gam y mae’r cynllun wedi’i

gyrraedd o ran cynnydd a'r tebygolrwydd y caiff ei gyflawni. Ar y cam cynllunio, caiff cynlluniau cyfarwyddiaethau eu herio a'u hadolygu mewn cyfarfodydd busnes clinigol a chorfforaethol, rhwng camau cyflwyno, er mwyn rhoi cyfle i gynnig adborth a chyngor.

## Cynnydd o ran ymdrin ag argymhellion cynllunio a rheoli ariannol blaenorol

62 Yn 2016, gwnaethom yr argymhellion canlynol mewn perthynas â rheoli risg. Mae Arddangosyn 6 yn disgrifio'r cynnydd a wnaed.

### Arddangosyn 6: cynnydd ar argymhellion a wnaed yn 2016 ynglŷn â rheoli ariannol

| Argymhelliad 2016 | Disgrifiad o'r cynnydd |
|---|---|
| **A7 2016 – Rheolaeth ariannol**<br>Atgyfnerthu trefniadau presennol ar gyfer rheolaeth a stiwardiaeth ariannol trwy:<br>• gytuno ar swyddi a chyfrifoldebau cyson ar gyfer staff sy'n arwain ar y themâu trawsbynciol ar gyfer arbedion ariannol; a<br>• chytuno ar ymagwedd a chylch gorchwyl cyson ar gyfer Cyfarfodydd Busnes Clinigol yn unol ag argymhelliad Archwiliad Mewnol. | **Ar y trywydd cywir ond heb ei gwblhau eto**<br>• Mae gan y Bwrdd Iechyd wyth thema drawsbynciol ac mae gan bob un swyddog arweiniol ar lefel weithredol. Ar adeg yr adolygiad hwn, roedd y Bwrdd Iechyd wedi adolygu ac wedi disodli ei Fwrdd Rhaglenni Gweithredol yn ddiweddar ac wedi sefydlu'r Bwrdd Effeithlonrwydd, Cynhyrchiant a Gwerth. Mae'r Bwrdd Effeithlonrwydd, Cynhyrchiant a Gwerth wedi cytuno ar y cylch gorchwyl y cytunodd arno gan y Bwrdd Gweithredol ac sydd wedi'i rannu â'r Pwyllgor Cyllid, Perfformiad a'r Gweithlu.<br>• Mae'r Bwrdd Iechyd wedi drafftio cylch gorchwyl ar gyfer y Cyfarfodydd Busnes Clinigol a Chorfforaethol; ar adeg ein hadolygiad, nid oedd y Swyddogion Gweithredol arweiniol na'r Tîm Gweithredol wedi adolygu'r cylch gorchwyl. Mae'r Bwrdd Iechyd yn anelu at weithredu'r argymhelliad hwn erbyn diwedd y flwyddyn ariannol. |

| Argymhelliad 2016 | Disgrifiad o'r cynnydd |
|---|---|
| **A8 2016 – Perfformiad Ariannol**<br>Atgyfnerthu trefniadau ar gyfer monitro ac adrodd ar gynlluniau arbedion yn erbyn targedau gan sicrhau bod atebolrwydd, dealltwriaeth ac adroddiadau clir i egluro pam na chafodd arbedion eu gwneud. | **Cwblhawyd**<br>Mae'r Bwrdd Iechyd wedi atgyfnerthu mesurau monitro ac uwchgyfeirio ym mhob un o'r cyfarwyddiaethau. Yn ystod y chwe mis cyntaf o'r flwyddyn bu'n ofynnol i gyfarwyddiaethau gyflwyno adroddiad yn erbyn arbedion bob pythefnos; mae hyn wedi lleihau i bob mis erbyn hyn. Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd wedi cyflwyno'r Bwrdd Effeithlonrwydd, Cynhyrchiant a Gwerth er mwyn monitro cyfarwyddiaethau sydd wedi'u huwchgyfeirio (y rhai sy'n gorwario ac nad ydynt yn cyflawni eu cynllun arbedion), cynlluniau adfer a themâu trawsbynciol. |

## Mae'r Bwrdd Iechyd wedi parhau i ddangos trefniadau cynllunio a llywodraethu strategol effeithiol, ond mae cyfle i fireinio adroddiadau'r cynllun tymor canolig integredig ymhellach a chefnogi aelodau annibynnol newydd

63 Mae ein gwaith asesu strwythuredig yn 2017 wedi ystyried trefniadau'r Bwrdd Iechyd ar gyfer cynllunio strategol, effeithiolrwydd y strwythurau llywodraethu, trefniadau llywodraethu gwybodaeth a threfniadau rheoli perfformiad. Rydym hefyd wedi asesu'r cynnydd yn erbyn yr argymhellion a wnaed yn 2016. Nodir ein canfyddiadau isod.

### Mae'r trefniadau cynllunio strategol yn gadarn, ond mae cyfleoedd ar gyfer mwy o drylwyredd o ran cynlluniau ariannol a'r potensial i wella adroddiadau'r Cynllun Tymor Canolig Integredig hyd yn oed yn fwy

64 Mae'r canfyddiadau sy'n sail i'r casgliad hwn yn seiliedig ar ein hadolygiad o ddull cynllunio strategol y Bwrdd Iechyd a'r trefniadau sy'n cefnogi'r broses o gyflawni rhaglenni newid strategol sy'n sail i'r Cynllun Tymor Canolig Integredig. Nodir ein canfyddiadau allweddol isod.

65 Mae'r Bwrdd Iechyd, unwaith eto, wedi sicrhau cymeradwyaeth yr Ysgrifennydd Cabinet ar gyfer y fersiwn ddiweddaraf o'i Gynllun Tymor Canolig Integredig ar gyfer y cyfnod 2017-20. Mae nifer o drefniadau corfforaethol cadarnhaol wedi cefnogi'r broses o ddatblygu'r Cynllun Tymor Canolig Integredig. Mae'r rhain yn cynnwys:

- ymgysylltu ag aelodau'r Bwrdd o ran y Cynllun Tymor Canolig Integredig ar ei newydd wedd, drwy sesiwn ddatblygu i'r Bwrdd;
- llunio cynllun ymgysylltu â rhanddeiliaid ar gyfer pob fersiwn newydd o'r Cynllun Tymor Canolig Integredig;
- canllawiau lleol ar eu newydd wedd i ddatblygu'r Cynlluniau Tymor Canolig Integredig ar lefel cyfarwyddiaeth yn unol â chanllawiau cenedlaethol Llywodraeth Cymru
- mae'r model partneriaid busnes o fewn cyfarwyddiaethau sy'n rhoi cymorth cynllunio, cyllid a'r gweithlu ac arbenigedd i ddatblygu Cynlluniau Tymor Canolig Integredig wedi cael ei

atgyfnerthu ymhellach eleni, gyda chymorth ychwanegol ym meysydd perfformiad a gwybodaeth; ac

- mae pob Cynllun Tymor Canolig Integredig ar lefel cyfarwyddiaeth yn destun craffu drwy broses asesu a chymeradwyo sy'n adolygu'r cynlluniau o dan nifer o feysydd, sef: cynllunio, ansawdd, cyfalaf, y gweithlu, arbedion ac asesiad ansoddol o gadernid a chydlyniant cynlluniau ariannol.

66 Mae gwaith wedi parhau eleni i fireinio prosesau adrodd Cynllun Tymor Canolig Integredig y Bwrdd Iechyd. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwella ei gyflwyniad mewn ffordd sy'n mynegi'r hyn a gyflawnwyd yn ystod y chwarter cyfredol a'r chwarter blaenorol ac yn nodi risgiau. Fodd bynnag, nid yw'n amlwg o'r ddogfen hon p'un a yw cyflawniadau chwarteri yn unol â'r disgwyliad, neu a ydynt wedi rhagori ar hynny neu a ydynt ar ei hôl hi o safbwynt y Bwrdd Iechyd. Felly, bydd angen i'r Bwrdd Iechyd ystyried sut mae'n mynegi cynnydd yn erbyn yr hyn y mae'n bwriadu ei gyflawni, ar yr adeg honno.

67 At hynny, gellid gwneud gwelliannau er mwyn sicrhau bod cynnydd ar naw thema drawsbynciol y Bwrdd Iechyd yn fwy amlwg. Tynnwyd sylw at y mater hwn drwy adolygiad Archwilio Mewnol a nodiadau gan y Bwrdd Effeithlonrwydd, Cynhyrchiant a Gwerth newydd, sy'n nodi bod angen i'r cynnydd o ran sicrhau manteision o'r ffrydiau gwaith trawsbynciol fod yn fwy eglur.

## Mae'r Bwrdd Iechyd wedi parhau i gryfhau ei strwythur er mwyn sicrhau bod y sefydliad yn addas at y diben, ond mae Cyfarwyddwr Cyllid parhaol eto i'w benodi

68 Mae'r canfyddiadau sy'n sail i'r casgliad hwn yn seiliedig ar ein hadolygiad o strwythur sefydliadol y Bwrdd Iechyd. Nodir ein canfyddiadau allweddol isod.

69 Yn ystod 2016, cynhaliodd y Bwrdd Iechyd nifer o weithgareddau gyda'r nod cyffredinol o sicrhau bod y sefydliad yn addas at y diben. Er mwyn ailalinio arweinyddiaeth ac atebolrwydd y gweithlu er mwyn cyflawni amcanion strategol, cynhaliwyd adolygiad o bortffolios gweithredol ac atebolrwydd rheolwyr. Yn ystod cam un, a gwblhawyd yn 2016, adolygwyd portffolios gweithredol a newidiadau arfaethedig ar lefel cyfarwyddwr cynorthwyol. Yn ystod cam dau, a gwblhawyd eleni, ystyriwyd rheolwyr cyfarwyddiaethau ac is-strwythurau. Yn sgil cwblhau'r gwaith strwythurol hwn mae'r Bwrdd Iechyd bellach mewn sefyllfa dda i symud ymlaen.

70 Mae adnoddau ychwanegol yn swyddfa'r Cyfarwyddwr Meddygol, gyda dau Gyfarwyddwr Meddygol cynorthwyol ychwanegol sy'n gyfrifol am gynhyrchiant ac ansawdd a diogelwch. Penodwyd cynorthwyydd gweinyddol hefyd, sy'n gam cadarnhaol, ym marn y Cyfarwyddwr Meddygol, i'w gwneud yn bosibl i'w swyddfa weithredu'n effeithiol.

71 Fodd bynnag, ar adeg paratoi'r adroddiad hwn, nid oedd gan y Bwrdd Iechyd Gyfarwyddwr Cyllid parhaol o hyd. Mae'r Bwrdd Iechyd wrthi'n recriwtio ac yn ceisio llenwi'r swydd hon. Mae trefniadau interim ar waith, sy'n gweithio'n dda. Mae'r Cyfarwyddwr Cyllid cynorthwyol yn gweithredu fel y Cyfarwyddwr Cyllid ar hyn o bryd, gyda gallu uwch arweinyddiaeth ychwanegol yn cael ei roi gan ymgynghorydd allanol ar sail cyfnod penodol er mwyn cefnogi'r broses o ddatblygu cynlluniau adfer a chynlluniau arbedion cyfarwyddiaethau. Fodd bynnag, nid yw hyn yn ateb hirdymor a bydd arweinyddiaeth ariannol weithredol sefydlog yn bwysig o ran hwyluso'r dull gweithredu mwy strategol a thrawsnewidiol a fydd yn angenrheidiol er mwyn sicrhau cynaliadwyedd ariannol. Bydd sicrhau digon o adnoddau yn y tîm Cyllid hefyd yn bwysig yng nghyd-destun y newid arfaethedig i'r ffiniau, o ystyried y galw ychwanegol tebygol ar y tîm os bydd y newid hwn yn mynd rhagddo.

72 Mae cyfrifoldeb gweithredol am TGCh wedi newid sawl gwaith yn ddiweddar. Yn fwyaf diweddar, y Cyfarwyddwr Cyllid fu'n gyfrifol, ar ôl i'r cyfrifoldeb gael ei drosglwyddo oddi wrth Stephen Harrhy pan

gafodd ei benodi'n Brif Gomisiynydd y Gwasanaethau Ambiwlans, ond ers diwedd haf 2017 mae wedi cael ei drosglwyddo i'r Cyfarwyddwr Gofal Sylfaenol, Cymuned ac Iechyd Meddwl. Caiff y trefniant hwn ei adolygu unwaith bod y Bwrdd Iechyd wedi penderfynu ar swydd wag y Cyfarwyddwr Cyllid. Mae hyn wedi effeithio ar gyflymder newidiadau, ond erbyn hyn mae ymrwymiad clir i fynd i'r afael â hyn, ac mae gwaith yn mynd rhagddo i ddechrau rhoi'r strategaeth ddigidol a gymeradwywyd yn ddiweddar ar waith, fel y'i trafodir yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn.

## Mae'r Bwrdd yn gweithredu'n effeithiol ac mae camau wedi cael eu cymryd i liniaru'r risgiau sy'n gysylltiedig â throsiant ymhlith yr aelodau annibynnol, ond mae angen gwneud gwaith o hyd i reoli faint o wybodaeth sydd o fewn y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Risg

73 Mae'r canfyddiadau sy'n sail i'r casgliad hwn yn seiliedig ar ein hadolygiad o effeithiolrwydd y bwrdd, a'i strwythurau llywodraethu a'i drefniadau sicrwydd. Nodir ein canfyddiadau allweddol isod.

74 Mae trefniadau gweinyddol ac ymddygiad y Bwrdd yn parhau'n effeithiol. Mae prosesau ar waith i adolygu effeithiolrwydd y bwrdd a'i bwyllgorau, gyda hunanasesiadau yn cael eu cynnal ym mhob pwyllgor bob blwyddyn. Fel gydag asesiad y llynedd, erys heriau o hyd i'r ysgrifenyddiaeth o ran cyhoeddi papurau pwyllgor un wythnos galendr cyn cyfarfodydd. Cafodd papurau ar gyfer un cyfarfod o'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Risg eu cyhoeddi'n hwyr eleni, ond ymdriniodd y pwyllgor â hyn yn effeithiol. Fodd bynnag, mae hyn, i bob diben, yn tynnu sylw at faint y llwyth gwaith yn y pwyllgor hwn a'i natur a'r angen posibl i swyddogion gweithredol ddeall gofynion sicrwydd yr Aelodau Annibynnol yn well er mwyn helpu'r ysgrifenyddiaeth yn ei rôl heriol.

75 Fel y llynedd, rydym yn parhau i weld lefelau da o graffu a herio, gydag ymatebion da ar y cyfan gan swyddogion gweithredol yn ystod cyfarfodydd y bwrdd a'i bwyllgorau. Eleni, mae'r Pwyllgor Llywodraethu Integredig wedi cyflwyno adroddiad sy'n cynnwys tabl o'r busnes a gynhaliwyd gan y Bwrdd Iechyd, y bwrdd gweithredol a phwyllgorau'r bwrdd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf mis Ebrill 2016 – mis Mawrth 2017. Defnyddiwyd yr adroddiad gan aelodau i ystyried graddau gwaith y Bwrdd. Mae hyn yn gadarnhaol; a bydd yr adroddiad nesaf arfaethedig yn mapio pa feysydd sydd ar goll a lle y byddai angen rhagor o graffu arnynt. Byddwn yn adolygu hyn y flwyddyn nesaf fel rhan o adolygiad ein hasesiad strwythuredig.

76 Eleni, mae'r Bwrdd Iechyd, ynghyd ag eraill yng Nghymru, wedi wynebu trosiant sylweddol ymhlith ei Aelodau Annibynnol. Mae pum aelod o'r Bwrdd wedi gadael eleni, gan gynnwys cadeirydd y Bwrdd Iechyd a'r is-gadeirydd. Mae'r Bwrdd Iechyd yn ymwybodol o'r risgiau posibl sy'n gysylltiedig â'r trosiant hwn, o ran colli gwybodaeth a phrofiad unigolion. Er mwyn lliniaru'r risgiau hyn, mae'r Bwrdd Iechyd wedi cymryd nifer o gamau, gan gynnwys y canlynol (er nad yw'n hollgynhwysfawr):

- mae datganiadau etifeddol wedi cael eu llunio gan gadeiryddion pwyllgorau sy'n rhoi'r gorau i'w rôl, yn ogystal â Chadeirydd y Bwrdd Iechyd. Diben y rhain yw sicrhau bod cadeiryddion pwyllgor newydd yn gallu deall y materion a'r ffocws presennol ym mhob un o is-bwyllgorau'r bwrdd a lleihau unrhyw oedi wrth fynd i'r afael â meysydd sy'n achosi pryder;
- mae pob Aelod Annibynnol sy'n rhoi'r gorau i'w rôl wedi cael cyfarfodydd terfynol ag Ysgrifennydd a Chadeirydd y Bwrdd. Mae'r rhain wedi galluogi Aelodau Annibynnol i fyfyrio ar eu cyfnod yn y rôl a nodi unrhyw wersi a ddysgwyd i aelodau newydd a all fod yn gymwys;
- caiff y to newydd o Aelodau Annibynnol ei gefnogi drwy raglen Academi Cymru sy'n cael ei chyflwyno ar sail Cymru gyfan ond hefyd drwy becyn pwrpasol a ddatblygwyd gan

ysgrifenyddiaeth y Bwrdd Iechyd, gan ystyried anghenion hyfforddiant Aelodau Annibynnol unigol; ac

- mae pob un o'r pwyllgorau wedi bod yn trafod yr angen am gymorth ychwanegol i aelodau newydd o'r pwyllgor, gan ofyn i swyddogion gweithredol fod yn ystyriol wrth baratoi papurau sicrwydd i'r pwyllgor a lleihau nifer y talfyriadau hyd y gellir er mwyn sicrhau y gall aelodau newydd ddeall y materion sy'n cael eu trafod.

77 Mewn cyfweliadau â'r grŵp presennol o Aelodau Annibynnol rhoddwyd barn gadarnhaol am drefniadau presennol pwyllgorau yn y Bwrdd Iechyd. Mae'r Aelodau Annibynnol yn fodlon ar y cyfan ar y cynnwys a'r wybodaeth a roddir gan swyddogion gweithredol. Mae'r Pwyllgor Llywodraethu Integredig yn cefnogi gallu pwyllgorau i ryngweithredu a chroesgyfeirio pryderon am ei fod yn dwyn gweithgareddau'r holl bwyllgorau eraill ynghyd a'i gwneud yn bosibl i groesgyfeirio materion. Mae gwerthfawrogiad amlwg am y ffordd y mae'r pwyllgor yn gweithio ymhlith y rhai sy'n ei fynychu ac mae'r Aelodau Annibynnol yn ei ystyried yn rhan gadarnhaol o'r fframwaith sicrwydd.

78 Mae'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod bod angen iddo atgyfnerthu ei Bwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Risg. Y llynedd, penderfynodd gyfuno'r pwyllgorau ansawdd a diogelwch a risg gorfforaethol gyda'r bwriad o leihau dyblygu a gwella effeithiolrwydd. Mae'r pwyllgor hwn yn gweithredu'n dda ar y cyfan, ond weithiau nid yw'r agenda wedi'i blaenoriaethu'n briodol ac mae'r papurau yn hir. Yn benodol, nodwyd anhawster gennym o ran sicrhau bod pob eitem yn cael ei chwmpasu, a chafodd y broblem hon ei gwaethygu pan gafodd rhai eitemau sylfaenol a oedd yn ymwneud â chymeradwyo polisïau eu blaenoriaethu ar frig yr agenda, a oedd yn golygu nad oes braidd ddim amser ar y diwedd i drafod yr eitemau craidd perthnasol ar yr agenda. Bydd angen i'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod y pwyllgor yn gwella'r ffordd y mae'n strwythuro ei agenda a sicrhau bod y wybodaeth a gyflwynir i'r pwyllgor yn ddigon cryno. Ar nodyn mwy cadarnhaol, nodwyd bod yr is-grwpiau a arweinir gan swyddogion gweithredol ac sy'n canolbwyntio ar ansawdd yn gweithio'n dda.

79 Mae Fframwaith Sicrwydd i'r Bwrdd ar waith a chaiff ei ddiweddaru bob chwarter er mwyn adlewyrchu'r adolygiad cyfnodol o risgiau ar lefel gorfforaethol, cyfarwyddiaeth ac ardal leol. Ers ein hasesiad strwythuredig y llynedd, mae'r Bwrdd Iechyd wedi cyflwyno blaenraglenni gwaith ar gyfer pob pwyllgor: mae'r rhain yn helpu'r pwyllgorau i gynllunio ac amserlennu eu ceisiadau am adroddiadau diweddaru yn y dyfodol.

80 Bu rhai newidiadau i'r is-bwyllgorau. Yn ddiweddar, mae'r Bwrdd Iechyd wedi newid un o is-bwyllgorau ei Fwrdd Gweithredol. Cafodd y Bwrdd Rhaglen Gweithredol ei ddisodli gan y Bwrdd Effeithlonrwydd, Cynhyrchiant a Gwerth. Cymeradwywyd ei gylch gorchwyl yn ddiweddar a bydd yn cael trosolwg o'r cynlluniau trawsbynciol. Dylai'r Bwrdd Effeithlonrwydd, Cynhyrchiant a Gwerth newydd wella trosolwg a'r gwaith o fonitro'r ffordd y cyflawnir themâu trawsbynciol. Hefyd, mae'r Bwrdd Iechyd newydd ail-lansio'r grŵp llywio Technoleg Gwybodaeth, sy'n un o is-bwyllgorau'r grŵp llywodraethu gwybodaeth. Bydd y pwyllgor hwn yn helpu i sicrhau gwaith monitro a sicrwydd rheolaidd ar gynnydd yn erbyn y strategaeth TGCh yn y Bwrdd Iechyd, sydd wedi bod yn fwlch.

81 Yn 2016, gwnaed yr argymhellion canlynol gennym mewn perthynas ag effeithiolrwydd pwyllgorau a Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd. Mae Arddangosyn 7 yn disgrifio'r cynnydd a wnaed.

Arddangosyn 7: cynnydd ar argymhellion a wnaed yn 2016 ynglŷn ag effeithiolrwydd y Bwrdd a'i bwyllgorau

| Argymhelliad 2016 | Disgrifiad o'r cynnydd |
|---|---|
| A1 2016<br>Er mwyn adnabod gofynion sicrwydd y bwrdd yn well, dylai'r Bwrdd Iechyd:<br>• gyfathrebu ei amcanion strategol yn fwy clir gan ddefnyddio is-amcanion neu nodau; a<br>• chynnwys blaenoriaethau Cynllun Tymor Byr Integredig yn ystod y flwyddyn. | **Ar y trywydd cywir**<br>Fel rhan o'i Gynllun Tymor Canolig Integredig ar gyfer 2017-20 ar ei newydd wedd, mae'r Bwrdd wedi ceisio cofnodi amcanion strategol ac amcanion cysylltiedig yn well a hefyd ystyried ei amcanion llesiant 'drafft' a nodau sy'n gysylltiedig â gofynion y ddeddfwriaeth newydd ar yr un pryd.<br>Mae'r Bwrdd Iechyd wedi datblygu blaenoriaethau'r Cynllun Tymor Canolig Integredig yn ystod y flwyddyn: mae'r rhain wedi'u cysoni'n rhannol â Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd, ac mae hyn yn dal i fod yn waith ar ei hanner o bell ffordd fel rhan o waith y Bwrdd Iechyd i ddatblygu ei Gynllun Tymor Canolig Integredig a'i Fframwaith Sicrwydd. |
| **A2 2016**<br>Dylai'r Pwyllgor Archwilio:<br>• sicrhau bod ganddo drefniadau priodol mewn lle er mwyn adolygu a monitro sicrwydd yn rheolaidd o fewn y Fframwaith Sicrwydd Bwrdd; a<br>• datblygu rhaglen waith ar gyfer y dyfodol er mwyn cynorthwyo'r pwyllgor i gynllunio ac amserlennu cyfarfodydd. | **Cwblhawyd**<br>Mae gan y Bwrdd Iechyd drefniadau ar waith i adolygu'r Fframwaith Sicrwydd bob chwarter.<br>Mae blaenraglenni gwaith ychwanegol ar waith ar gyfer pob pwyllgor, sy'n helpu pwyllgorau i gynllunio ac amserlennu cyfarfodydd. |
| **A3 2016**<br>Dylai'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod:<br>• pob adroddiad i'r Bwrdd a phwyllgorau'n mabwysiadu'r templed adroddiadau diwygiedig; a<br>• bod y templed adroddiadau'n cael ei ddefnyddio i gyfathrebu pwrpas yr adroddiad yn glir ynghyd â'r weithred/penderfyniad gofynnol pan fo cynlluniau a pholisïau'n cael eu hadrodd i'r Bwrdd a'r pwyllgorau. | **Cwblhawyd**<br>Mae'r pwyllgorau yn y templed corfforaethol cywir. |

| Argymhelliad 2016 | Disgrifiad o'r cynnydd |
|---|---|
| **A4 2016**<br>Cwblhau llunio a gweithrediad y strwythurau cefnogi ar gyfer y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Risg sydd newydd ei greu. | **Cwblhawyd**<br>Ar ôl ystyried a rhagor o drafodaeth yng nghyfarfod y Pwyllgor Archwilio, Diogelwch a Risg ym mis Medi 2017, penderfynwyd peidio â sefydlu is-grŵp sicrwydd ac, yn hytrach, fynd ati i ddatblygu a gwella adroddiadau eithriad cyfarwyddiaethau. Cytunwyd ar drefniadau gwaith yr is-bwyllgorau eraill yn gyffredinol ac maent ar waith. |
| **A5 2016**<br>Dylai'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod adroddiadau o'r Uned Gyflawni yn destun i drefniadau llywodraethu a sicrwydd y sefydliad. | **Ar y trywydd cywir**<br>Bydd y Bwrdd yn sicrhau y caiff adroddiadau cysylltiedig gan yr Uned Gyflawni eu hystyried yn fwy ffurfiol lle y bo'n briodol o fewn trefniadau llywodraethu a sicrwydd y Bwrdd. Fodd bynnag, dylid nodi bod materion sy'n cael eu cyflwyno i Bwyllgor Cyllid, Perfformiad a'r Gweithlu y Bwrdd a'u hystyried ganddo hefyd yn elfen allweddol o drefniadau llywodraethu a sicrwydd y Bwrdd. |

### Mae'r trefniadau rheoli risg yn gadarn ac yn rhoi sail resymol i ddeall risgiau sefydliadol a strategol allweddol ac ymateb iddynt

82 Mae'r canfyddiadau sy'n sail i'r casgliad hwn yn seiliedig ar ein hadolygiad o effeithiolrwydd trefniadau rheoli risg. Nodir ein canfyddiadau allweddol isod.

83 Ym mis Ebrill 2017, rhoddodd yr Archwilwyr Mewnol sicrwydd rhesymol ynghylch trefniadau rheoli risg gorfforaethol y Bwrdd Iechyd. Canfuont fod dull y Bwrdd Iechyd o reoli risg gorfforaethol yn gymharol aeddfed a bod prosesau sefydledig ar waith. Mae'r Bwrdd Iechyd yn cyflwyno adroddiadau rheolaidd ar ei gofrestr risg gorfforaethol i'r Bwrdd a'r Pwyllgor Archwilio. Mae pob risg yn y gofrestr wedi cael ei neilltuo i bwyllgor ar gyfer trosolwg a gwaith craffu a chaiff crynodeb o gofrestr risg pwyllgor ei adolygu a'i ddiweddaru'n rheolaidd yng nghyfarfodydd y pwyllgor.

84 Bydd aelodau'r Bwrdd yn cael cyfle i gael hyfforddiant awydd i fentro y flwyddyn nesaf, ar ôl penderfyniad i aros nes bod y grŵp newydd o Aelodau Annibynnol wedi'i benodi. Bydd hyn yn gam cadarnhaol gan ei fod yn codi ymwybyddiaeth ac yn ysgogi trafodaeth o fewn y Bwrdd.

### Er gwaethaf y trefniadau llywodraethu gwybodaeth, ymddengys bod problemau o ran arweinyddiaeth weithredol wedi'u datrys, heb fawr ddim newidiadau mawr y llynedd. Mae paratoadau ar waith ar gyfer y rheoliadau diogelu data cyffredinol, ac mae rôl y swyddog diogelu data wedi'i ddyrannu

85 Mae'r canfyddiadau sy'n sail i'r casgliad hwn yn seiliedig ar ein hadolygiad o effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu gwybodaeth y Bwrdd Iechyd. Nodir ein canfyddiadau allweddol isod.

86 Mae'r grŵp llywodraethu gwybodaeth yn un o is-bwyllgorau'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Risg ac yn atebol iddo. Mae'r Gwarcheidwad Caldicott a'r Cyfarwyddwr Llywodraethu a Gwasanaethau

Corfforaethol/Cadeirydd y Bwrdd yn aelodau o'r ddau grŵp. Mae'r swyddog gweithredol arweiniol ar gyfer TGCh hefyd yn mynychu'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch.

87 Cyflwynir adroddiadau ar DPAau i'r grŵp llywodraethu gwybodaeth bob chwarter, sy'n cynnwys dangosyddion ynglŷn â cheisiadau rhyddid gwybodaeth, ceisiadau gwrthrych am wybodaeth, cydymffurfiaeth â hyfforddiant a digwyddiadau. Mae'r grŵp llywodraethu gwybodaeth hefyd yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am unrhyw ddigwyddiadau sy'n ymwneud â llywodraethu gwybodaeth y rhoddwyd gwybod amdanynt yn y sefydliad ers ei gyfarfod blaenorol. Mae canllawiau ar waith i benderfynu a ddylid ystyried rhoi gwybod i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth am achos o fynediad diawdurdod at wybodaeth, yn ogystal ag ymdrin â digwyddiadau sy'n ymwneud â diogelwch a gofnodir ar Datix.

88 Mae'r grŵp yn monitro cydymffurfiaeth â hyfforddiant llywodraethu gwybodaeth. Mae aelodau o'r grŵp yn pryderu am y niferoedd bach sy'n dewis cael hyfforddiant a ph'un a yw meysydd risg allweddol yn cael eu targedu'n effeithiol. Fodd bynnag, mae'r niferoedd sy'n cwblhau hyfforddiant ar-lein wedi bod yn cynyddu'n fisol. Ym mis Mai 2017, y gyfradd gydymffurfio oedd 51.77%, a oedd wedi cynyddu i 61.38% erbyn mis Awst 2017. Mae llywodraethu gwybodaeth yn rhan o raglen ymgynefino gorfforaethol y staff a cheir sesiynau yn yr ystafell ddosbarth bob mis hefyd. Yn ogystal â hynny, mae modiwl e-Ddysgu ESR yn rhoi mynediad at becynnau ar-lein.

89 Mae'r grŵp llywodraethu gwybodaeth wedi dechrau paratoi ar gyfer y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol, ac mae gweithgor wedi cael ei sefydlu i ddatblygu cynllun gweithredu i'r Bwrdd. Pennaeth Gwasanaethau Corfforaethol fydd yn arwain y gweithgor, a fydd yn atebol i'r grŵp llywodraethu gwybodaeth. Caiff adolygiad o'r holl bolisïau a dogfennaeth sy'n ymwneud â llywodraethu gwybodaeth ei gynnal er mwyn sicrhau eu bod yn adlewyrchu gofynion y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol, ac mae hwn wedi'i gynnwys yng nghynllun gweithredu Grŵp Gorchwyl a Gorffen y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol. Bydd y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol hefyd yn cael ei gynnwys yn y gofrestr risg llywodraethu gwybodaeth.

90 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi dyrannu rôl y Swyddog Diogelu Data i Ysgrifennydd y Bwrdd/Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol a Llywodraethu.

91 Mae'r tîm llywodraethu gwybodaeth wrthi'n datblygu cofrestr o asedau gwybodaeth a dogfennaeth gysylltiedig ac mae'n disgwyl cyflwyno diweddariad statws yng nghyfarfod y grŵp llywodraethu gwybodaeth ym mis Rhagfyr 2017. Mae'n bwysig bod gan y Bwrdd Iechyd gofrestr asedau gwybodaeth, nid yn unig er mwyn bodloni gofynion y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol, ond hefyd er mwyn cael dealltwriaeth gadarn o'r wybodaeth a ddelir ganddo, a ble y caiff ei dal, er mwyn diwallu anghenion busnes a chleifion.

92 Mae hwb penodol ar gyfer cofnodion yn Nhrewiliam bellach. Fodd bynnag, ceir risg y gallai fod yn llawn ymhen 12 mis os na fydd y prosiectau digideiddio arfaethedig yn mynd rhagddynt. Caiff hyn ei adlewyrchu fel risg uchel yn y gofrestr risg llywodraethu gwybodaeth gyda chamau lliniaru priodol.

Mae trefniadau rheoli perfformiad yn gadarn ar y cyfan, gyda gwaith pwysig wedi'i wneud i atgyfnerthu atebolrwydd am berfformiad o fewn y sefydliad

94 Mae'r canfyddiadau sy'n sail i'r casgliad hwn yn seiliedig ar ein hadolygiad o effeithiolrwydd trefniadau rheoli perfformiad. Nodir ein canfyddiadau allweddol isod.

95 Mae nifer o weithgareddau ar waith i fonitro perfformiad o fewn y Bwrdd Iechyd. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Cyfarfodydd Busnes Clinigol – lle mae cnewyllyn bach o swyddogion gweithredol yn cyfarfod â swyddogion arweiniol clinigol a rheolwyr arweiniol pob cyfarwyddiaeth bob mis er mwyn rhoi trosolwg o'r gweithrediad cyfan a rheoli ei berfformiad;
- Cyfarfodydd Busnes Corfforaethol – lle mae cnewyllyn bach o swyddogion gweithredol yn cyfarfod â rheolwyr arweiniol ar gyfer pob swyddogaeth gorfforaethol fawr ddwywaith y mis er mwyn rhoi trosolwg a rheoli perfformiad; a'r
- Bwrdd Gweithredu – lle mae'r Prif Swyddog Gweithredu yn goruchwylio clwstwr o themâu trawsbynciol a'u gweithgareddau cysylltiedig er mwyn cyflawni gwelliannau yn y tymor canolig i'r hirdymor.

96 Er mwyn ei gwneud yn bosibl i berfformiad gael ei fonitro ar lefel pwyllgorau, mae'r Bwrdd Iechyd wedi datblygu adroddiad mesur perfformiad i'r Bwrdd Iechyd cyfan[4], sy'n cynnwys targedau Haen 1 a mesurau o ganlyniadau. Mae gwaith yn cael ei ddatblygu ar fesurau gofal sylfaenol, ac mae adran fach yn ystyried gwasanaethau a gomisiynwyd, sy'n gam cadarnhaol, ond bydd angen i'r Bwrdd Iechyd ystyried dangosyddion priodol ynglŷn ag ansawdd a gwasanaethau a chanlyniadau i gleifion o fewn y gwasanaethau hyn. Rhoddodd adroddiad diweddar gan yr Archwilwyr Mewnol sicrwydd rhesymol ond tynnwyd sylw at yr angen i adolygu a chryfhau'r trefniadau sy'n gysylltiedig â pharatoi adroddiad bwrdd arddangos ar berfformiad. Cafodd gwybodaeth yn yr adroddiad hwn ei hadolygu a'i dilysu, a thynnodd yr Archwilwyr Mewnol sylw at broblemau gyda diffyg adnoddau yn y Gyfarwyddiaeth Cynllunio a Pherfformiad i baratoi'r adroddid hwn, wedi'u gwaethygu gan y ffaith nad oedd gweithdrefnau gweithredu safonol wedi'u dogfennu, a fyddai'n hwyluso'r gwaith o lunio'r adroddiad gan aelod arall o staff. Cafwyd problemau hefyd o ran sefydlogrwydd cronfa ddata'r adroddiad ar berfformiad y bydd angen i'r Bwrdd Iechyd fynd i'r afael â hwy. Mae'r Bwrdd Iechyd wrthi'n cymryd camau i fynd i'r afael â'r problemau y mae'r Archwilwyr Mewnol wedi tynnu atynt.

97 Ar nodyn cadarnhaol, bu enghreifftiau eleni o ymgais gan y Pwyllgor Cyllid, Perfformiad a'r Gweithlu i edrych yn fanwl ar wasanaethau lle mae perfformiad wedi dirywio, neu lle ceir meysydd o wariant uchel. Mae gwaith manwl o'r fath yn enghreifftiau o graffu effeithiol gan bwyllgorau mewn ymateb i bryderon ynglŷn â'r gwasanaethau a ddarperir a pherfformiad ariannol.

98 Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd wedi cymeradwyo fframwaith rheoli perfformiad newydd yn ddiweddar, sy'n cael ei roi ar waith ar hyn o bryd. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cydnabod bod angen mwy o atebolrwydd am berfformiad ac mae'r fframwaith yn anelu at gynorthwyo hyn. Mae ymgais i drosglwyddo atebolrwydd i lawr drwy'r sefydliad, a fydd yn gwella'r ffordd y cyflawnir amcanion corfforaethol, ym marn y Bwrdd Iechyd, yn ogystal â grymuso'r staff o fewn y sefydliad. Diben y fframwaith yw amlinellu'r hyn a ddisgwylir gan bob aelod o staff yn unigol ac ar y cyd. Fodd bynnag, mae angen troi'r amcanion corfforaethol yn amcanion personol bellach ac yna yn adolygiadau datblygiad personol. Mae gwaith ar y fframwaith hwn yn gadarnhaol, ond bydd angen i'r Bwrdd Iechyd wella ei

[4] Bwrdd Arddangos Perfformiad Integredig Cwm Taf

gydymffurfiaeth ag Adolygiadau Datblygu Personol, sef 64% ym mis Medi 2017, a hefyd wneud gwaith i fireinio'r amcanion corfforaethol yn amcanion personol i'w staff. Byddwn yn gwneud gwaith dilynol ar hyn y flwyddyn nesaf fel rhan o'n gwaith archwilio parhaus.

## Mae angen parhau i gymryd camau i fynd i'r afael â'r heriau sy'n gysylltiedig â'r gweithlu, gweithredu'r strategaeth iechyd ddigidol newydd a pharhau i ddatblygu trefniadau rheoli newid corfforaethol

### Mae trefniadau rheoli newid cyffredinol yn dda, ond mae lle i wneud cynnydd yn erbyn y themâu trawsbynciol yn fwy gweladwy ac adolygiad effeithiolrwydd y Swyddfa Rheoli Rhaglenni

99 Bu gan y Bwrdd Iechyd Swyddfa Rheoli Rhaglenni ers 2015. Ei diben yw rheoli rhaglenni sy'n gysylltiedig â rhoi cynllun tair blynedd y Bwrdd Iechyd ar waith ac, yn benodol, gydgysylltu, cyfarwyddo a goruchwylio'r prosiectau a'r gweithgareddau trawsnewid yn y themâu trawsbynciol sydd eu hangen i sicrhau'r canlyniadau a'r buddiannau yn y cynllun tair blynedd. Mae'r Swyddfa Rheoli Rhaglenni hefyd yn cynorthwyo cyfarwyddiaethau a chyfarwyddwyr sy'n gyfrifol am weithredu elfennau allweddol o'r cynllun. Mae gan y Swyddfa Rheoli Rhaglenni gynllun gwaith a blaenoriaethau blynyddol; ond, hyd yma, ni chynhaliwyd unrhyw adolygiad penodol o'i heffeithiolrwydd.

100 O ystyried ei hadnoddau cyfyngedig, mae'n canolbwyntio ar rymuso cyfarwyddiaethau i sicrhau newid drwy roi cymorth ac arweiniad. Nid oes dim byd o'i le ar weithredu yn y modd hwn. Fodd bynnag, mae cyfleoedd i rannu mwy o adborth a gwersi a ddysgwyd gan y Swyddfa Rheoli Rhaglenni â chyfarwyddiaethau. Mae ymwybyddiaeth cyfarwyddiaethau o'r cynnydd a wneir yn erbyn y naw thema drawsbynciol hefyd wedi cael ei hamlygu fel problem, gyda rhai yn dweud eu bod yn teimlo'n bell oddi wrth waith y themâu trawsbynciol. Yn fwy cyffredinol, mae'r Bwrdd Iechyd wrthi'n ceisio gwella'r cymorth i'r cyfarwyddiaethau a fydd bellach yn cael cymorth i reoli perfformiad fel rhan o'r model cymorth busnes sydd eisoes ar waith.

### Mae camau yn cael eu cymryd i fynd i'r afael â rhai heriau sylweddol o ran y gweithlu yn y Bwrdd Iechyd, ond erys gwariant ar staff asiantaeth a lefelau salwch yn gymharol uchel o hyd

101 Fel yn achos y Byrddau Iechyd eraill, mae Cwm Taf yn wynebu pwysau o ran y gweithlu. Ar adeg yr adroddiad hwn, roedd 24 o swyddi meddygol yn wag. Mae'r Bwrdd Iechyd yn targedu cynhyrchiant ymhlith staff meddygol a nyrsio, gyda chynlluniau defnyddio'r gweithlu yn ystyried gwariant meddygol a gwariant nyrsio. Mae'r gweithgarwch hwn yn canolbwyntio ar leihau costau ond mae gwariant ar staff asiantaeth nyrsio a meddygol fel canran o gyfanswm cyflogau yng Nghwm Taf wedi cynyddu o 4.9% yn 2015-16 i 7% yn 2016-17.

102 Mae strategaeth recriwtio wedi'i thargedu ar waith yn ogystal â brand recriwtio cadarn ar fformat 'Cwm Taf yn Gofalu' a ategir gan ymgyrch yn y cyfryngau cymdeithasol i bwysleisio manteision byw a gweithio yng Nghwm Taf. Mae'r amser a gymerir i hurio staff (amser a fesurir rhwng gosod hysbyseb a chwblhau gwiriadau cyn cyflogaeth) wedi gwella'n sylweddol ers 2013-14 o 129.6 diwrnod i 67.3 diwrnod ar hyn o bryd, sydd ychydig yn uwch na chyfartaledd Cymru.

103 Er bod trosiant staff o gwmpas y lefel gyffredin, mae lefelau salwch yn gymharol uchel o gymharu â Byrddau Iechyd eraill. Fodd bynnag, ceir tystiolaeth bod cyfraddau absenoldeb oherwydd salwch wedi gwella, drwy gamau wedi'u targedu i fynd i'r afael â'r lefelau salwch mewn nifer o gyfarwyddiaethau.

Bydd angen parhau i gymryd camau er mwyn gwella cydymffurfiaeth â'r adolygiadau hyfforddiant a datblygiad personol gorfodol (fel y crybwyllwyd yn gynharach). Yn fwy cyffredinol, mae'n gadarnhaol gweld bod y metrigau allweddol hyn ar gyfer y gweithlu yn cael eu monitro, gyda sylwadau misol manwl ar gamau gweithredu.

104 Un flaenoriaeth fu meithrin gallu ac adnoddau arweinyddiaeth yn fewnol ymhlith unigolion, timau a grwpiau staff allweddol. Un enghraifft dda yw'r rhaglen ddatblygu PACT, sef rhaglen 18 mis ffurfiol i reolwyr cyfarwyddiaethau a'u partneriaid busnes. Roedd hon wedi'i hanelu'n benodol at helpu i ddatblygu a chyflawni'r Cynllun Tymor Canolig Integredig. Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd wedi datblygu rhaglen i raddedigion mewn cydweithrediad â Byrddau Iechyd eraill. Dechreuodd y cynllun ym mis Chwefror 2016, recriwtiwyd y ddwy garfan gyntaf o 10 o raddedigion ac mae'r Bwrdd Iechyd wrthi'n recriwtio trydedd garfan o bum lle. Mae'r cynlluniau hyn yn ceisio tyfu gallu rheoli ac arwain o fewn y Bwrdd Iechyd.

105 Mae'r Bwrdd Iechyd wrthi'n ceisio cyflwyno ffyrdd newydd o weithio a modelau newydd er mwyn helpu i leihau'r heriau o ran y gweithlu. Mae'r Bwrdd Iechyd yn defnyddio ei gynlluniau gweithlu i edrych ar elfennau allweddol o ailddylunio'r gweithlu, er enghraifft, ymestyn y defnydd o uwch-ymarferwyr nyrsio ac ymarferwyr nyrsio brys. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi rhoi'r fframwaith sgiliau a gyrfa gweithwyr cymorth gofal iechyd clinigol newydd ar waith, sy'n canolbwyntio ar ddatblygu staff nyrsio band 2-4. Mae gwaith hefyd yn mynd rhagddo ar ochr y staff meddygol ac mae'r Bwrdd Iechyd yn chwilio am ffyrdd o ddefnyddio graddau meddygon ymgynghorol a graddau gyrfaoedd yn fwy effeithiol.

## Mae datblygiad y Strategaeth Iechyd Ddigidol yn gam cadarnhaol. Bellach, mae angen gwneud gwaith i'w rhannu'n amcanion allweddol i'w cyflawni, dyrannu adnoddau a sicrhau cysondeb ar lefel uwch arweinwyr fel na chaiff y broses o'i chyflawni ei llesteirio

106 Yn 2015, nodwyd gennym nad oedd gan y Bwrdd Iechyd strategaeth TGCh gymeradwy ar waith. Roedd diffyg strategaeth yn golygu nad oedd gan y Bwrdd Iechyd unrhyw beth i seilio ei bolisïau TGCh, ei strwythur llywodraethu, na'i benderfyniadau ar ddatblygu seilwaith arno.

107 Eleni, mae'r Bwrdd Iechyd wedi datblygu Strategaeth Iechyd Ddigidol a Rhaglen Amlinellol Strategol (RhAS), ynghyd â Byrddau Iechyd eraill yng Nghymru. Cymeradwywyd Strategaeth Iechyd Ddigidol Cwm Taf gan y bwrdd gweithredol ym mis Mehefin 2017, ac yna fe'i cyflwynwyd i Lywodraeth Cymru. Ers hynny, mae Llywodraeth Cymru wedi dyrannu cyllid ar gyfer prosiectau sy'n ymwneud â gweithredu systemau Cymru Gyfan. Mae Bwrdd Iechyd Cwm Taf yn cael £260,000 ar gyfer pedwar o'r prosiectau hyn.

108 Cafodd y gwaith o ddatblygu'r Strategaeth Iechyd Ddigidol ei gefnogi gan ymgynghorwyr allanol ATOS a weithiodd i'r Bwrdd Iechyd am wyth wythnos, gan gynnal adolygiad o'r trefniadau presennol ond hefyd ymgysylltu â chroestoriad eang o staff yn y Bwrdd Iechyd. Mae'r Strategaeth yn amlinellu gweledigaeth glir ar gyfer y Bwrdd Iechyd dros y tair i bum mlynedd nesaf ac mae'n esbonio sut y bydd gwasanaethau gwybodeg digidol yn helpu i gyflawni Cynllun Tymor Canolig Integredig y Bwrdd Iechyd.

109 Mae'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod bod angen iddo edrych ar y strategaeth a'i rhannu'n amcanion allweddol i'w cyflawni bellach. Bellach, mae angen dyrannu adnoddau ariannol ar gyfer y prosiect.

110 Yn flaenorol, mae'r Bwrdd Iechyd wedi nodi bylchau mewn sicrwydd ynglŷn â TGCh ond mae'r Bwrdd Iechyd wedi sefydlu Grŵp Strategaeth Ddigidol yn ddiweddar, a gynhaliodd ei gyfarfod cyntaf ym mis Tachwedd 2017. Caiff y grŵp ei gadeirio gan Aelod Annibynnol ac mae'n cynnwys aelodaeth o bob

rhan o'r sefydliad a Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru. Bydd y grŵp yn berchen ar y strategaeth, yn ei goruchwylio ac yn arwain y gwaith o roi'r strategaeth ar waith ar ran y Bwrdd Gweithredol a'r Bwrdd Iechyd. Bydd y grŵp yn cyflwyno adroddiadau sicrwydd rheolaidd i'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Risg, gan dynnu sylw at gynnydd a risgiau fel y bo'n briodol. Mae'n rhy gynnar i asesu effeithiolrwydd y grŵp a byddwn yn adolygu ei drefniadau llywodraethu a gweithredu fel rhan o'n gwaith archwilio y flwyddyn nesaf.

111 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi atgyfnerthu gallu'r tîm gwybodeg yn ddiweddar. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, ni fu Cyfarwyddwr Cyswllt penodedig ar gyfer gwybodeg. Yn ystod 2017, cyflawnwyd y rôl gan y Pennaeth Systemau TG Clinigol ar sail dros dro. Fe'n hysbyswyd bod Cyfarwyddwr Cyswllt Gwybodeg parhaol wedi cael ei benodi'n ddiweddar ac y bydd yn dechrau yn ei rôl cyn diwedd blwyddyn galendr 2017.

112 Er bod gan y Bwrdd Iechyd drefniadau ar waith i reoli ei risgiau TG, nid yw'n glir p'un a oes trefniadau ffurfiol ar gyfer cytuno ar newidiadau TG. Drwy'r system DATIX mae modd cofnodi risgiau TG. Caiff y rhain eu huwchgyfeirio i'r Bwrdd/y gofrestr risg gorfforaethol yn ôl yr angen. Yn ogystal â'r grŵp llywio TG, nid yw'r bwrdd cynghori ar newidiadau TG wedi cyfarfod yn ddiweddar, felly nid yw'n glir lle y cytunir ar newidiadau TG. Mae angen i'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod ganddo systemau priodol ar waith i reoli newidiadau TG.

113 Dim ond un unigolyn yn y Bwrdd Iechyd sy'n ymwneud yn benodol â seiberddiogelwch (y rheolwr diogelwch gwybodaeth), ochr yn ochr â'r tîm gweinydd. Maent yn aros am ganlyniad adolygiad cenedlaethol o seiberddiogelwch gan Wasanaeth Gwybodeg GIG Cymru, ac yn bwriadu gweithredu yn unol ag unrhyw argymhellion a wneir. Mae gwaith yn mynd rhagddo ar sail Cymru gyfan hefyd i ddatblygu polisi a gweithdrefnau seiberddiogelwch. Yn lleol, mae'r Bwrdd Iechyd wedi dechrau datblygu rhai, ond efallai y bydd y rhain yn newid oherwydd yr adolygiad o seiberddiogelwch.

114 Yn 2016, gwnaed yr argymhelliad canlynol gennym mewn perthynas â TGCh a'r defnydd o dechnoleg. Mae Arddangosyn 8 yn disgrifio'r cynnydd a wnaed.

Arddangosyn 8: cynnydd ar argymhelliad a wnaed yn 2016 ynglŷn â TGCh a'r defnydd o dechnoleg

| Argymhelliad 2016 | Disgrifiad o'r cynnydd |
|---|---|
| **A6 2016**<br>Edrych ar ba mor sydyn yr ymdrinnir ag argymhellion rheoli gwybodaeth a thechnoleg sydd heb eu cyflawni hyd yn hyn. | **Ar y trywydd cywir**<br>Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cymryd camau i fynd i'r afael â nifer o'n hargymhellion, er enghraifft datblygu strategaeth TGCh. Fodd bynnag, mae'r Bwrdd Iechyd yn ymwybodol o nifer o argymhellion y mae angen mynd i'r afael â hwy o hyd, ac mae'r gwaith o gwblhau'r rhain yn cael ei fonitro drwy'r Pwyllgor Archwilio. |

# Atodiad 1

## Ymateb rheolwyr y Bwrdd Iechyd i argymhellion asesiad strwythuredig 2017

Caiff ymateb rheolwyr y Bwrdd Iechyd/Ymddiriedolaeth ei fewnosod unwaith y bydd y templed ymateb wedi'i gwblhau. Bydd yr atodiad yn rhan o'r adroddiad terfynol i'w gyhoeddi ar wefan Swyddfa Archwilio Cymru unwaith bod yr adroddiad wedi'i ystyried gan y bwrdd neu bwyllgor perthnasol y bwrdd.

Arddangosyn 9: ymateb y rheolwyr

Mae'r tabl canlynol yn nodi argymhellion 2017 ac ymateb y rheolwyr.

| Argymhelliad | | Canlyniad/budd a fwriedir | Blaenoriaeth uchel (ie/na) | Derbyniwyd (do/naddo) | Ymateb y rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| A1 | Mae Adnodd Asesu'r Effaith ar Ansawdd y Bwrdd Iechyd, y mae'n rhaid ei gwblhau ar gyfer cynlluniau gwerth dros £100,000, yn gofyn ar hyn o bryd i gyfarwyddiaethau ystyried effaith eu cynllunio arbedion ar y canlynol: diogelwch cleifion, effeithiolrwydd clinigol, profiad cleifion a phrofiad staff. Dylai'r Bwrdd Iechyd ymestyn y templed i gwmpasu effaith cynlluniau arbedion mawr ar gyfarwyddiaethau a gwasanaethau eraill, cyrff iechyd eraill a phartneriaid a sefydliadau allanol hefyd. | Nodi effaith cynlluniau arbedion yn well | Ie | Do | Bydd y Bwrdd Iechyd yn sicrhau bod y templedi cyfredol sy'n cael eu defnyddio, yn cael eu hestyn i gwmpasu'r argymhelliad a wnaed. Caiff y rhain eu datblygu i lywio proses Cynllun Tymor Canolig Integredig 2019-2022. | 2018-19 (Tachwedd) | Cyfarwyddwr Cyllid |

| Argymhelliad | | Canlyniad/budd a fwriedir | Blaenoriaeth uchel (ie/na) | Derbyniwyd (do/naddo) | Ymateb y rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| A2 | Canfuom nad yw proses adolygu gan gymheiriaid Cynllun Tymor Canolig Integredig y Bwrdd Iechyd yn nodi cyfleoedd posibl i weithio ar draws cyfarwyddiaethau na dyblygu'n llawn. Dylai'r Bwrdd Iechyd adolygu ac atgyfnerthu'r broses er mwyn hwyluso cynlluniau arbedion ar y cyd a nodi cynlluniau tebyg neu ddyblyg. | Hwyluso'r broses o nodi cyfleoedd i weithio ar draws cyfarwyddiaethau | Ie | Do | Bydd y Bwrdd Iechyd yn sicrhau y caiff ei brosesau presennol eu hadolygu a'u hatgyfnerthu yn y maes a argymhellwyd a bydd ei ganfyddiadau yn llywio proses Cynllun Tymor Canolig Integredig 2019-2022. | 2018-19 (Tachwedd) | Cyfarwyddwr Cyllid/ Cyfarwyddwr Cynllunio a Pherfformiad |
| A3 | Canfuom y gall fod cymhlethdodau o ran gweithio ar draws cyfarwyddiaethau, yn enwedig os nad yw cyfarwyddiaethau yn cael budd uniongyrchol o gynlluniau arbedion. Dylai'r Bwrdd Iechyd ddatblygu egwyddorion ar gyfer cyfarwyddiaethau sy'n annog gweithio ar draws y Bwrdd Iechyd cyfan. | Gwell trefniadau gwaith ar draws y Bwrdd Iechyd cyfan | Ie | Do | Bydd y Bwrdd Iechyd yn datblygu cyfres o egwyddorion i'w mabwysiadu gan gyfarwyddiaethau sy'n annog gweithio ar draws y Bwrdd Iechyd cyfan. Bydd y rhain yn llywio proses Cynllun Tymor Canolig Integredig 2019-2022. | 2018-19 (Tachwedd) | Cyfarwyddwr Cyllid |

| Argymhelliad | | Canlyniad/budd a fwriedir | Blaenoriaeth uchel (ie/na) | Derbyniwyd (do/nadd o) | Ymateb y rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| A4 | Canfuom mai cyfyngedig yw'r adnoddau a'r sgiliau rheoli prosiect a dadansoddi data sydd gan y Bwrdd Iechyd er mwyn cefnogi'r broses o gynllunio a chyflawni arbedion, yn enwedig ar gyfer cynlluniau i'r Bwrdd Iechyd cyfan. Dylai'r Bwrdd Iechyd adolygu ac ystyried gwella adnoddau a sgiliau rheoli prosiect a dadansoddi data. | Gwella gallu rheoli prosiect a dadansoddi data | Ie | Do | Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cydnabod ei ddiffygion o ran gallu/adnoddau cymorth rheoli prosiect a dadansoddi data. Mae'n sicrhau adnoddau ychwanegol ar gyfer dadansoddi data ac mae Cynllun Hyfforddiant Rheolwyr Graddedig y Bwrdd Iechyd yn dysgu Sgiliau Rheoli Prosiect i bob Hyfforddai. | Mehefin 2018 | Cyfarwyddwr Cynllunio a Pherfformiad |
| A5 | Dylai'r Bwrdd Iechyd fireinio proses adrodd y Cynllun Tymor Canolig Integredig ymhellach er mwyn cynnwys gwybodaeth fanwl am gerrig milltir er mwyn galluogi Aelodau Annibynnol i ddeall y perfformiad presennol yn unol â'r hyn a ddisgwylir. | Gwell gwaith monitro perfformiad | Ie | Do | Mae'r Bwrdd wedi gwneud cynnydd yn y maes hwn dros y flwyddyn ddiwethaf ac mae'n parhau i ystyried pob ffordd o fireinio a gwella trefniadau adrodd ymhellach. Yn wir, gofynnwyd i'r Archwilwyr helpu i nodi arfer gorau a chyfeirio'r Bwrdd Iechyd at arfer gorau hefyd. | 2018-19 | Cyfarwyddwr Cynllunio a Pherfformiad |

| Argymhelliad | | Canlyniad/budd a fwriedir | Blaenoriaeth uchel (ie/na) | Derbyniwyd (do/naddo) | Ymateb y rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| A6 | Dylai'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod cynllun gweithredu manwl a chanddo adnoddau i'w gwneud yn bosibl i'r Strategaeth Iechyd Ddigidol gael ei chyflawni. | Rhoi'r Strategaeth Iechyd Ddigidol ar waith yn effeithiol | Ie | Do | Bydd y Strategaeth Iechyd Ddigidol, er ei bod yn uchelgeisiol, yn gofyn am gyfres o achosion busnes cysylltiedig y bydd angen i'r Bwrdd Iechyd eu hystyried a'u blaenoriaethu yn ei rhaglen gyfalaf gyffredinol. | 2018-19 | Prif Swyddog Gweithredu |
| A7 | Mae angen i'r Bwrdd Iechyd fireinio ansawdd ei bapurau a gyflwynir i'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Risg;<br>• gwneud y papurau yn fwy cryno ac iddynt fwy o ffocws (roedd rhai o'r papurau a welwyd yn rhy hir a chymhleth); ac<br>• ystyried y ffordd y rheolir yr agenda, er enghraifft, cyflwyno materion mwy cymhleth ar ddechrau'r pwyllgor, a symud penderfyniadau i gymeradwyo polisïau tua diwedd yr agenda. | Gwella effeithiolrwydd a gwaith craffu'r pwyllgor | Ie | Do | Byddwn yn parhau i weithio gyda'n cyd-Gyfarwyddwyr er mwyn sicrhau bod ansawdd papurau'r pwyllgor a strwythur a ffocws ei agenda yn parhau i ddatblygu, aeddfedu a gwella yn y pen draw.<br>Cwblhawyd | 2018/19 | Cyfarwyddwr Nyrsio, Bydwreigiaeth a Gwasanaethau Cleifion<br><br>Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol a Llywodraethu/ Ysgrifennydd y Bwrdd |

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales
Website: www.archwilio.cymru

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru